



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**Atodlen 5 (5) – Personau sy'n
darparu gwasanaethau i'r
cyhoedd ac sy'n derbyn
cyfanswm o £400,000 neu fwy o
arian cyhoeddus mewn
blwyddyn ariannol**

[Cyf: 20150529ASAt5(5) – 1]

Cynnwys

1	Cefndir a chyd-destun	1
2	Ymchwiliad safonau mewn perthynas â phersonau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol	2
3	Rhesymoldeb a chymesuredd	4
4	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan bersonau perthnasol	6
5	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd	62
6	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg	68
7	Casgliadau'r Ymchwiliad Safonau	70
8	Y camau nesaf	80
	Atodiad A - Sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd gan y cyhoedd ar ymchwiliadau safonau cylch 2	81
	Atodiad B– Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau	86

1 Cefndir a chyd-destun

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Ar 7 Tachwedd 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen 'Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015'¹. Cafodd y safonau arfaethedig hyn eu datblygu i osod dyletswyddau ar gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru.

Wrth gyflwyno'r ddogfen, nodwyd yr isod gan Lywodraeth Cymru:

Mae'r safonau wedi'u drafftio mewn ffordd sy'n adeiladu ar y cynlluniau iaith. Bellach, bydd yn ofynnol i sefydliadau a fydd yn gorfod cydymffurfio â safonau fynd ati mewn ffordd fwy rhagweithiol, strategol i roi lle canolog i'r Gymraeg. Rydym yn hyderus y bydd hyn yn darparu sylfaen gadarn, gan alluogi Comisiynydd y Gymraeg i wella gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg.²

Bu'r rheoliadau drafft a gyhoeddwyd ar 7 Tachwedd 2014 yn sail ar gyfer ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg ac ymarferiad Llywodraeth Cymru i gasglu tystiolaeth er mwyn llunio asesiad effaith rheoleiddiol.

Daeth Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015³ i rym ar 31 Mawrth 2015, a hynny yn dilyn dadl a phleidlais yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

¹ <http://gov.wales/docs/dcells/consultation/141106-regulations-welsh-language-standards-cy.pdf>

² <http://gov.wales/docs/dcells/consultation/141106-consultation-welsh-language-standards-cy.pdf>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

2 Ymchwiliad safonau mewn perthynas â phersonau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol.

Yn unol ag adran 62, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, cyflwynwyd hysbysiad rhagymchwilio ar 31 Hydref 2014 at sylw'r personau yr ymddengys i'r Comisiynydd eu bod yn aelodau o'r grŵp canlynol o bersonau:

- Atodlen 5 (5) - Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol –
 - (a) Pan fo'r person hwnnw wedi cael arian cyhoeddus hefyd mewn blwyddyn ariannol flaenorol, neu
 - (b) Pan fo penderfyniad wedi ei wneud y bydd yn cael arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol ddilynol.

Y personau perthnasol a ddaw o fewn y grŵp uchod yn yr adroddiad safonau hwn yw:

- CAG Cymru
- Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth
- Gofal Cymru
- Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol
- Hafal
- Leonard Cheshire Disability
- Wallich-Clifford Community

Cyflwynwyd hysbysiad rhagymchwilio ar 31 Hydref 2014 at sylw'r personau perthnasol. Hysbysiad ysgrifenedig yw hysbysiad rhagymchwilio, sy'n datgan bwriad Comisiynydd y Gymraeg i gynnal ymchwiliad safonau, ac sy'n pennu pwnc yr ymchwiliad safonau. Ni chaiff y Comisiynydd gynnal ymchwiliad safonau oni bai iddi roi hysbysiad rhagymchwilio i bob person perthnasol (sefydliad) o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau ar yr ymchwiliad.

Pwnc yr ymchwiliad safonau hwn oedd dyfarnu ar ba safonau (os o gwbl) a ddylai fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol (p'un a yw'r safonau eisoes wedi eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26 (1) ai peidio). Cychwynnodd cyfnod yr ymchwiliad safonau hwn ar 17 Tachwedd 2014. Daeth i ben ar 6 Chwefror 2015.

Yn rhan o'r ymchwiliad safonau hwn, casglwyd gwybodaeth gan bob person perthnasol. Gwnaethpwyd hynny trwy dderbyn holiadur wedi ei gwblhau ganddynt. Yn gyfochrog â'r

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

broses o gasglu tystiolaeth gan bob person perthnasol, casglwyd tystiolaeth gan y Panel Cynghori a'r cyhoedd.

Gosodwyd holiadur i'r cyhoedd ar wefan Comisiynydd y Gymraeg. Pwrpas yr holiadur hwn oedd rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd nodi'r hyn roeddynt yn teimlo sy'n rhesymol i'r personau perthnasol ei wneud a'i ddarparu yn Gymraeg, a hynny gan ystyried y gofynion ynghlwm wrth y safonau a gyhoeddwyd ar 7 Tachwedd 2014. Gosodwyd hysbysiadau yn y wasg genedlaethol yn ystod cyfnod yr ymchwiliad safonau yn tynnu sylw'r cyhoedd at yr holiadur hwn. Yn ogystal â hynny, gosodwyd fideo ar wefan y Comisiynydd er mwyn rhoi cyflwyniad i'r broses, ac i ddangos i'r cyhoedd sut y gallant ymateb i'r ymchwiliad safonau.

3 Rhesymldeb a chymesuredd

Yn unol ag adran 63 (1) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i'r angen am sicrhau nad yw gofynion am i bersonau gydymffurfio â safonau yn rhinwedd adran 25 (1) yn afresymol neu'n anghymesur.

Wrth gynnal ymchwiliad safonau, rhaid i'r Comisiynydd:

- (a) ystyried, o ran pob gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 y mae person yn ei wneud, a yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys ai peidio, ac
- (b) o ran pob gweithgaredd o'r fath, os yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson, ddod i'r casgliad y dylai safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i'r person mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

Wrth ystyried y cwestiwn o resymoldeb a chymesuredd, dylid nodi bod y Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau yn Atodlen 9 a weir gan y person (ac i'r graddau y mae'n eu gwneud) yn benodol gymwys i'r person hwnnw.

Ond nid oes rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 os yw, neu i'r graddau y mae:

- (a) adroddiad safonau o dan adran 64 yn nodi y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw, neu bod
- (b) Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

Nid yw hynny'n atal rheoliadau rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

Drwy wneud rheoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol, awdurdodir Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i berson.

Hysbysiad cydymffurfio yw hysbysiad a roddir i berson gan y Comisiynydd –

- (a) sy'n nodi, neu'n cyfeirio at, un neu ragor o safonau a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26 (1), a
- (b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â'r safon neu â'r safonau a nodir neu y cyfeirir ati neu atynt.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd wrth ddod i benderfyniad ar gynnwys hysbysiad cydymffurfio a roddir i berson.

Nid yw'r ffaith bod safon yn benodol gymwys i berson yn golygu bod dyletswydd arno i gydymffurfio â'r safon honno. Dim ond os bydd y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person, a bod yr hysbysiad hwnnw'n ei gwneud hi'n ofynnol i gydymffurfio â safon ar ddiwrnod gosod, y bydd y ddyletswydd honno mewn grym.

Cyn rhoi hysbysiad cydymffurfio i berson, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ymgynghori â'r person. Nid yw methiant y person i gymryd rhan mewn ymgynghoriad yn atal y Comisiynydd rhag rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw.

Wedi i Gomisiynydd y Gymraeg roi hysbysiad cydymffurfio i berson, caiff y person hwnnw wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn iddo ddyfarnu a yw'r gofyniad i gydymffurfio â'r safon honno, neu i gydymffurfio â'r safon yn y modd hwnnw, yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio. Pe bai'r Comisiynydd yn hysbysu person nad yw'r gofyniad i gydymffurfio â safon yn afresymol neu'n anghymesur, rhoddir hawl yn y Mesur iddo apelio i'r Tribiwnlys er mwyn dod i ddyfarniad.

Meini prawf Comisiynydd y Gymraeg

Wrth ddod i farn ar bwnc yr ymchwiliad safonau hwn, yn unol â'r gofynion a amlinellir yn Rhan 4, Pennod 8 y Mesur, ystyriwyd y meini prawf canlynol ochr yn ochr â'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn rhan o'r ymchwiliad safonau. Nid oes rhaid ystyried pob maen prawf ymhob achos, ac nid yw unrhyw un o'r meini prawf yn bwysicach na'i gilydd.

- A yw'r person perthnasol yn agored i orfod cydymffurfio â safonau – a yw'r person perthnasol yn dod o fewn Atodlen 5 a hefyd o fewn Atodlen 6, neu yn dod o fewn Atodlen 7 a hefyd o fewn Atodlen 8?
- A yw'r dosbarth o safon (cyflenwi gwasanaethau; llunio polisi; gweithredu; cadw cofnodion; hybu) yn gymwysadwy i'r person perthnasol?
- A yw'r person perthnasol yn gwneud y gweithgaredd⁴ dan sylw?
- A yw'r person perthnasol eisoes wedi ymrwmo i ddarparu'r gweithgaredd, neu'r weithred dan sylw, yn rhannol neu'n llawn, drwy ei gynllun iaith Gymraeg?
- A yw'r person perthnasol eisoes yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg (boed hynny'n cyfateb i'r union ofynion sydd ynghlwm wrth y safon ai peidio), neu'n gwneud y gweithgaredd yn unol â'r safon?
- A yw mwyafrif helaeth y personau perthnasol eraill o fewn yr un sector yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg, neu'n gwneud y gweithgaredd?
- A oes unrhyw resymau eraill yn erbyn, neu o blaid gwneud y safon yn benodol gymwys i'r person perthnasol?

⁴ Ystyrir y maen prawf hwn yng nghyswllt safonau cyflenwi gwasanaethau yn unig.

4 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan bersonau perthnasol

Derbyniwyd tystiolaeth gan bob un o'r personau perthnasol a enwir yn adran 2 o'r adroddiad hwn. Roedd y dystiolaeth hon yn cynnwys ymatebion i 190 o gwestiynau mewn holiadur, yn ogystal â thystiolaeth bellach a ddarparwyd yn dilyn ymholiadau dilynol.

Darllenwyd pob ymateb yn unigol a defnyddiwyd meddalwedd i gofnodi a dadansoddi'r testun ac i adnabod themâu cyffredinol. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd ymhlith swyddogion Comisiynydd y Gymraeg er mwyn dadansoddi'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan bersonau perthnasol yn rhan o'r ymchwiliad safonau, ynghyd ag ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw.

Darperir yn yr adran hon ganran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau perthnasol, sy'n cyfateb i'r safonau (boed hynny'n cyfateb i'r union ofynion sydd ynghlwm wrth y safonau ai peidio) ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yn erbyn y safonau, dylid nodi nad oedd modd paru nifer o'r safonau mewn perthynas â gweithgareddau cyflenwi gwasanaethau, a hynny oherwydd natur fanwl y rheoliadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Dan rai amgylchiadau, mae'n bosibl bod y personau perthnasol dan sylw yn ymrwymo neu'n cydymffurfio â'r gofyniad, ond nid yw hwnnw wedi ei ddatgan yn benodol yn eu cynlluniau iaith Gymraeg.

Rhoddir crynodeb o'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan bob person perthnasol a ddaw o fewn y grwp o bersonau a nodir yn adran 4 yr adroddiad hwn. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch pa weithgareddau a wneir gan y personau dan sylw, pa weithgareddau maent yn eu gwneud trwy'r Gymraeg ac i ba raddau y maent yn gallu cydymffurfio â'r safonau.

Ar 31 Hydref 2014, nid oedd y personau perthnasol a ganlyn yn meddu ar gynllun iaith Gymraeg wedi'i gymeradwyo o dan adran 14(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993:

- CAG Cymru
- Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol
- Leonard Cheshire Disability
- Wallich-Clifford Community

Lle bo unrhyw gyfeiriadau at safonau yn yr adroddiad safonau hwn, cyfeirir at y safonau a bennwyd yn y rheoliadau drafft a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 7 Tachwedd 2014.

CAG Cymru

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd CAG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]

Nododd CAG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Nododd fod ei bolisiâu cyfredol yn cydymffurfio â'r mwyafrif o'r safonau dan sylw. Er hynny, nodwyd y byddai angen system ffôn wedi'i hawtomeiddio arno er mwyn medru cydymffurfio â safon 9. Gan ei fod yn rhagweld cydsoddiad yn y dyfodol, nodwyd nad oedd yn briodol i fuddsoddi mewn system gyffelyb ar hyn o bryd ond y byddai'n rhesymol a chymesur i ddisgwyl iddo gydymffurfio wedi i'r cydsoddiad gael ei gwblhau.

Wrth ystyried gofynion safon 15 nododd nad oedd ganddo ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio a galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Nid oedd yn ystyried y byddai safon 21 yn rhesymol neu'n gymesur o ystyried lefel sgiliau iaith Gymraeg y mwyafrif o staff, a'r nifer uchel o alwadau ffôn a dderbyniwyd gan y cyhoedd ynghylch cyrsiau.

O'r herwydd, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd CAG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd y sefydliad y byddai'n rhesymol iddo gydymffurfio â'r mwyafrif o'r safonau dan sylw.

Er hynny, nododd nad oedd yn ystyried y byddai'n rhesymol i ddisgwyl i'r sefydliad i gynnal cyfarfodydd yn Gymraeg yn unol â safonau 25 a 28 heb ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

**Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]**

Nododd CAG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'u bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Roedd yn ystyried byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff

Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]

Nododd CAG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd fod ei bolisiau cyfredol yn cydymffurfio â gofynion y safonau dan sylw, a'i fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Nododd CAG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd fod ei bolisi cyfredol yn cydymffurfio â gofynion y safon dan sylw, a'i fod yn ystyried y byddai gwneud y safon yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus
Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Nododd CAG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd fod ei bolisiau cyfredol yn cydymffurfio â gofynion y safonau dan sylw, a'i fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 8: Cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau
Safonau ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd CAG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 9: Cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni
Safonau ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]**

Nododd CAG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd fod ei bolisiâu cyfredol yn cydymffurfio â gofynion safonau 50, 50A a 50B.

Roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]

Nododd CAG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd y sefydliad bod ei bolisiâu cyfredol yn cydymffurfio â gofynion safonau 52, 53, 54 a 56.

Wrth ystyried gofynion safon 55, nododd fod dolen 'Cymraeg' ar dudalennau Saesneg ei wefan, a bod dolen i'r tudalennau Saesneg yn ymddangos ar y tudalennau Cymraeg.

Roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]

Nododd CAG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd fod ei bolisiâu cyfredol yn cydymffurfio â gofynion y safonau dan sylw.

Roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]

Nododd CAG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Nododd nad oedd yn darparu gwasanaeth derbynfa swyddogol ymhob un o'i swyddfeydd. Cadarnhaodd y byddai'n rhesymol iddo i gydymffurfio â'r safonau yn y swyddfeydd lle darperir y gwasanaeth hwnnw. Ychwanegodd y byddai'n medru cwrdd ag amcanion y safonau yng nghyswllt derbyn ymwelwyr yn ei swyddfeydd heb dderbynfa os gwneir trefniadau o flaen llaw.

Ychwanegodd na fyddai'n medru sicrhau gwasanaeth Gymraeg wyneb yn wyneb ar bob achlysur ymhob un o'i swyddfeydd.

Nid oedd CAG Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Gweithgaredd 13: Hysbysiadau swyddogol

Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]

Nododd CAG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 14: Dyfarnu ar geisiadau am grant

Safonau ar gyfer dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]

Nododd CAG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Er i'r sefydliad gadarnhau y byddai'n medru cydymffurfio â'r mwyafrif o'r safonau dan sylw, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Ychwanegodd na fyddai'n medru sicrhau y byddai'n medru darparu'r gwasanaeth a nodir yn safon 71 heb ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu ar adegau.

Gweithgaredd 15: Dyfarnu ar dendrau am gontract

Safonau ar gyfer dyfarnu ar dendrau am gontract [74-78]

Nododd CAG Cymru nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]

Nododd CAG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Dylid nodi bod adran 12 (2)(b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff

Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]

Nododd CAG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ystyried gofynion safon 81, nododd ei fod wedi derbyn cyngor blaenorol y byddai'n medru parhau i ddefnyddio'r brand 'WEA' gan ei fod eisoes yn gydnabyddedig.

Roedd yn ystyried bod y brand presennol ('WEA Cymru') yn adlewyrchu ymrwymiad i'r Gymraeg o fewn strwythur ehangach y corff, ac y byddai'n rhesymol iddo barhau i'w ddefnyddio.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safon yma yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]

Nododd CAG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Nododd ei fod yn ymrwymedig i gynyddu darpariaeth Gymraeg a dwyieithog ar draws y sefydliad, yn unol â'r targedau a osodwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau.

Dylid nodi y caiff cyrsiau eu dehongli yn y rheoliadau drafft fel a ganlyn:

Unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu ar gyfer addysgu neu wella sgiliau aelodau o'r cyhoedd; ond nid yw'n cynnwys gweithgareddau na chysiau sy'n cael eu darparu fel rhan o'r cwricwlwm yn unol ag unrhyw ddeddfiad.⁵

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Ychwanegodd na fyddai'n rhesymol iddo ddarparu ei holl gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg o ystyried natur yr ardaloedd a wasanaethir, natur newidiol y cwricwlwm a'r ystod eang o gyrsiau a gynigir.

Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]

Nododd CAG Cymru nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safon yma yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]

Cadarnhaodd CAG Cymru y byddai'n medru cydymffurfio â gofynion y mwyafrif y safonau dan sylw.

Roedd yn ystyried y byddai'n rhesymol i gyhoeddi adroddiad blynyddol yn unol â gofynion safon 161, ond ychwanegodd na fyddai darparu rhai o'r ystadegau a nodir yn y safon yn gymesur oherwydd diffyg adnoddau.

O'r herwydd, nid oedd CAG Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau llunio polisi [86-95]

Cadarnhaodd CAG Cymru y byddai'n asesu ac yn monitro polisiâu cyfredol a newydd er mwyn sicrhau eu bod yn ystyried eu heffaith ar gyfleoedd unigolion i ddefnyddio'r

⁵ Paragraff 37, Rhan 3, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Gweinidogion Cymru, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) 2015.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Gymraeg, ac er mwyn sicrhau nad ydynt yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Nododd nad oedd yn meddu ar bolisi dyfarnu grantiau swyddogol.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Roedd CAG Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau gweithredu [96-141]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Roedd CAG Cymru yn ystyried y byddai'n rhesymol a chymesur i gorff yng Nghymru i gydymffurfio â safon 96. Cadarnhaodd hefyd y byddai ei bolisiau yn cydymffurfio â gofynion safonau 97-109.

Safonau ar gyfer cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Cadarnhaodd CAG Cymru fod ei bolisiau cyfredol yn cydymffurfio â gofynion safonau 110-113.

Safonau ar gyfer corff yn disgyblu staff [114-117]

Cadarnhaodd CAG Cymru bod ei bolisiau cyfredol yn cydymffurfio â gofynion safonau 114-117.

Safonau ar gyfer technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118-124]

Nododd CAG Cymru nad oedd yn gweithredu system fewnwyd. Ychwanegodd nad oedd yn darparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg i gyflogeion nac ychwaith yn darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd lle bo rhyngwyneb yn bodoli eisoes.

Safonau ar gyfer corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Cadarnhaodd CAG Cymru ei fod eisoes yn cydymffurfio â mwyafrif y gofynion a bennir yn safonau 125-133, ond bod hyfforddiant iechyd a diogelwch yn cael ei ddarparu yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd.

Safonau ar gyfer recriwtio gan gorff [134-138]

Nododd CAG Cymru ei fod yn ystyried ffactorau megis y nifer o siaradwyr Cymraeg a oedd eisoes yn gweithio mewn swyddfa benodol ynghyd â'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd lle leolir swyddi newydd.

Nododd ei fod yn darparu'r dogfennau a restrir yn safon 135A yn Gymraeg.

Cadarnhaodd y byddai'n cynnal cyfweiliadau ac asesiadau yn Gymraeg neu yn darparu

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os na fyddai'n bosibl eu cynnal yn Gymraeg fel arall.

Pan fydd ymgeisydd wedi gwneud cais am swydd yn Gymraeg, cadarnhaodd ei fod yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd beth yw'r penderfyniad yn Gymraeg.

Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Cadarnhaodd CAG Cymru fod yr arwyddion sy'n cael eu harddangos y tu fewn i adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg, ond nad oedd y testun Cymraeg wedi'i osod fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei darllen yn gyntaf ar hyn o bryd.

Safonau ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Cadarnhaodd CAG Cymru nad oedd cyhoeddiadau dros offer sain yn cael eu gwneud o fewn gweithle'r sefydliad.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Roedd CAG Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau hybu [143-144]

Cadarnhaodd CAG Cymru nad oedd yn cydsynio i safonau hybu fod yn gymwysadwy iddo.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Cadarnhaodd CAG Cymru y byddai'n rhesymol a chymesur disgwyl iddo gydymffurfio â'r mwyafrif o safonau ynghylch cadw cofnodion.

Er hynny, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud safon 150 yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Nid oedd y sefydliad yn ystyried y gofyniad yn un cymesur na dymunol, gan ystyried y caiff y Gymraeg ei defnyddio fel iaith gyntaf gan alwyr a/neu staff ac nid oes angen gwneud cais am wasanaeth yn Gymraeg mewn nifer o'i swyddfeydd.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Roedd CAG Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth ei bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 57% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.⁶

Nododd bod ei gallu i gydymffurfio yn amrywio fesul safon. Cadarnhaodd ei bod yn ymdrechu i ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg ac na fyddai'r fersiwn Cymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Er hynny, nododd na fyddai'n cychwyn gohebiaeth yn Gymraeg gan mai iaith weithredol y sefydliad yw Saesneg. Yn ogystal, nododd bod natur y gwasanaethau a ddarperir yn amrywio yn ôl sut y caiff gwasanaethau eu hariannu.

Nid oedd yn ystyried y byddai gosod y safonau dan sylw yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd cost ynghyd â'r angen i addasu prosesau mewnol er mwyn adnabod derbynwyr o Gymru.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]

Nododd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth ei bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 73% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.⁷

Cadarnhaodd y darperir opsiwn Gymraeg ar gyfer holl linellau cymorth y sefydliad. Er hynny, nodwyd bod galwadau busnes yn cael eu hateb yn Saesneg, sef iaith weithredol y sefydliad. Pe bai galwadau'n cael eu derbyn yn Gymraeg, cadarnhaodd y byddai'n ymdrechu i gynnal galwadau yn Gymraeg. Yn yr un modd â gweithgaredd 1, nododd bod natur y gwasanaethau a ddarperir yn amrywio yn ôl sut y caiff gwasanaethau eu hariannu.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd cost, diffyg adnoddau staff ac y byddai angen addasu prosesau mewnol er mwyn cynnig opsiwn Cymraeg ar gyfer pob agwedd o'i systemau ffôn.

⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁷ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth ei bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.⁸

Nododd y Gymdeithas fod cyfarfodydd mewnol yn cael eu cynnal yn Saesneg fel mater o drefn, ond bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd wedi cael ei gynnig yn y gorffennol pan dderbyniwyd cais o flaen llaw.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd cost a diffyg siaradwyr Cymraeg ymhlith staff.

Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd

Safonau a bennir ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]

Nododd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.⁹

Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff

Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]

Nododd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.¹⁰

Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff

Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]

Nododd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth ei bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

⁸ Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁹ Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁰ Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.¹¹

Roedd yn ystyried y byddai gwneud y safon dan sylw yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]

Nododd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth ei bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.¹²

Roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 8: Cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau Safonau ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]

Nododd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.¹³

Wrth ystyried gofynion safonau 40 a 43, cadarnhaodd y Gymdeithas ei bod yn cynhyrchu deunydd at ddefnydd y cyhoedd yn ddwyieithog yng Nghymru. Nododd nad oedd yn cynhyrchu'r dogfennau a bennir yn safonau 41, 42, 44 neu 45.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur, a hynny am ei bod o'r farn y byddai cyfieithu pob dogfen a gyhoeddwyd ganddi yn ddefnydd anghymesur o adnoddau.

Gweithgaredd 9: Cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni Safonau ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]

Nododd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth ei bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.¹⁴

Nododd bod y ffurflenni a ddarperir ganddi yn cael eu cynhyrchu drwy'r wefan, a bod y ffurflenni hynny ar gael yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd. Ychwanegodd nad oedd safon 51 yn berthnasol i'w gweithgareddau.

¹¹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹² Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹³ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁴ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Nid oedd y Gymdeithas yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd y diffyg galw am ei gwasanaethau ar-lein yn Gymraeg.

Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff

Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]

Nododd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth ei bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein.

Nid oedd y Gymdeithas yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd y diffyg galw presennol am ei gwasanaethau ar-lein yn Gymraeg. Fodd bynnag, nododd ei bod yn ymchwilio sut y gallai wella'r ddarpariaeth Gymraeg ar-lein mewn modd ymarferol a fforddiadwy.

Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff

Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]

Nododd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth ei bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.¹⁵

Roedd yn ystyried byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff

Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]

Nododd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth ei bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 86% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.¹⁶

Nid oedd y Gymdeithas yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur, a hynny am nad oedd yn cyflogi derbynwyr tu hwnt i'w phrif swyddfa yn Llundain. Nododd ei bod yn ymdrechu i dderbyn ymwelwyr i'w swyddfeydd yng Nghymru yn Gymraeg os oes siaradwyr Cymraeg ar gael.

¹⁵ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Gweithgaredd 13: Hysbysiadau swyddogol

Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]

Nododd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.¹⁷

Nid oedd y Gymdeithas yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am resymau cost ac wrth ystyried y galw presennol am ei wasanaethau Gymraeg. Nododd ei fod yn rhoi amlygrwydd cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg wrth gynhyrchu arwyddion neu ddeunydd dwyieithog yn rhan o'u cynllun iaith. Er hynny, roedd o'r farn y gallai'r diffiniad o 'hysbysiad swyddogol' yn y rheoliadau drafft gael ei ddehongli i gwmpasu llawer o wybodaeth, gan gynnwys holl gynnwys ei wefan.

Gweithgaredd 14: Dyfarnu ar geisiadau am grant

Safonau ar gyfer dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]

Nododd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth ei bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 83% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer dyfarnu ar geisiadau am grant.¹⁸

Nododd y Gymdeithas y cynhelir dyfarniadau ar geisiadau am grant yn Saesneg, gan mai'r iaith honno oedd iaith weithredol y sefydliad.

Nid oedd y Gymdeithas yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur, a hynny am ei bod o'r farn y byddai cynnal dyfarniadau'n ddwyieithog yn achosi oedi yn y broses, ac y byddai costau cyfieithu ychwanegol.

Gweithgaredd 15: Dyfarnu ar dendrau am gontract

Safonau ar gyfer dyfarnu ar dendrau am gontract [74-78]

Nododd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth ei bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 83% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer dyfarnu ar dendrau am gontract.¹⁹

Nododd y Gymdeithas y cynhelir dyfarniadau ar dendrau am gontract yn Saesneg, gan mai'r iaith honno oedd iaith weithredol y sefydliad.

¹⁷ Canran gyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁸ Canran gyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁹ Canran gyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Nid oedd y Gymdeithas yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur, a hynny am ei bod o'r farn y byddai cynnal dyfarniadau'n ddwyieithog yn achosi oedi yn y broses, ac y byddai costau cysylltiol.

Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]

Nododd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.²⁰

Dylid nodi bod adran 12(2)(b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff

Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]

Nododd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth ei bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd yr ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.²¹

Roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]

Nododd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Ymddengys fod hyn am ei bod o'r farn nad oedd yn darparu cyrsiau i'r cyhoedd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.

²⁰ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²¹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]

Nododd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, am ei bod yn denant yn ei swyddfeydd presennol.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.²²

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]

Nododd y Gymdeithas ei bod yn cofnodi ystadegau defnydd gwasanaethau Gymraeg i'r graddau maent yn berthnasol i gontractau penodol. Nid oedd strwythurau ffurfiol er mwyn cofnodi defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i'r broses o adrodd yn flynyddol ar gynllun iaith y sefydliad.

Nid oedd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd y byddai angen cyllid ychwanegol er mwyn creu'r systemau mewnol angenrheidiol.

Safonau llunio polisi [86-95]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer llunio polisi.²³

Nododd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth nad oedd yn ystyried defnydd y Gymraeg wrth iddi ddatblygu polisiâu mewnol i'w gweithredu ar draws Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, nododd ei bod yn ystyried materion yn ymwneud â'r Gymraeg wrth ddatblygu gwasanaethau neu ymgyrchoedd a allai effeithio ar siaradwyr Cymraeg.

Yn yr un modd, nid oedd yn ystyried defnydd y Gymraeg wrth ddyfarnu grantiau, oni bai fod yr ariannwr yn disgwyl hyn i fod yn rhan o'r gofynion cyflawni.

Nid oedd y Gymdeithas yn ystyried y byddai gwneud y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur. Nododd ei bod yn sefydliad integredig ar hyn o bryd a oedd yn darparu gwasanaethau yng Nghymru a Lloegr, ac y byddai newid prosesau cyfredol o bosibl yn golygu sefydlu prosesau gwahanol ar gyfer Cymru a Lloegr.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Nid oedd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd y gost o ddatblygu systemau newydd er mwyn cofnodi ac adrodd ar weithgareddau.

Wrth ystyried gofynion safon 173, nododd na fyddai'n bosibl gwneud ymrwymadau o ran amserlenni adrodd tan fod ystod y safonau y bydd rhaid cydymffurfio â hwy yn glir.

²² Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²³ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau gweithredu [96-141]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff.

Wrth ystyried gofynion safon 96, cadarnhaodd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth ei bod yn gweithredu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, a bod y polisi hwnnw wedi'i gyhoeddi ar y fewnwyd.

Gan mai Saesneg yw iaith weithredol y sefydliad ar hyn o bryd, nododd na fyddai'n medru cydymffurfio â safonau 97-109.

Safonau ar gyfer cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cwynion gan aelodau o staff corff.

Nododd y Gymdeithas ei bod yn caniatáu i staff wneud cwynion at y sefydliad yn Gymraeg, er nad oedd yn hysbysu staff bod modd gwneud hynny.

Gan mai Saesneg yw iaith weithredol y sefydliad ar hyn o bryd, nododd na fyddai'n medru cydymffurfio â safonau 110-113.

Safonau ar gyfer corff yn disgyblu staff [114-117]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch corff yn disgyblu staff.

Nododd y Gymdeithas ei bod yn caniatáu i staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn eu herbyn drwy broses ddisgyblu fewnol, er nad oedd yn hysbysu staff bod modd gwneud hynny.

Gan mai Saesneg yw iaith weithredol y sefydliad ar hyn o bryd, nododd na fyddai'n medru cydymffurfio â safonau 114-117.

Safonau ar gyfer technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118-124]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd.

Gan mai Saesneg yw iaith weithredol y Gymdeithas ar hyn o bryd, nododd na fyddai'n medru cydymffurfio â safonau 118-124.

Safonau ar gyfer corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 22% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.²⁴

Nododd y Gymdeithas nad oedd yn asesu sgiliau iaith Gymraeg cyflogeion fel mater o arfer, ac eithrio pan fo'r sgiliau hynny'n hanfodol ar gyfer swydd benodol.

Ychwanegodd ei bod yn darparu hyfforddiant i staff yng Nghymru ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg, a bod y staff hynny'n defnyddio llofnodion dwyieithog ar negeseuon e-bost.

Er hynny, gan mai Saesneg yw iaith weithredol y sefydliad, nododd na fyddai'n medru cydymffurfio â safonau 125-133.

Safonau ar gyfer recriwtio gan gorff [134-138]

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 71% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau a bennir yn y rheolau drafft ynghylch recriwtio gan gorff.²⁵

Nododd y Gymdeithas ei bod yn asesu a oes angen sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer swyddi newydd, a bod swyddi yn nhîm Citizens Advice Cymru yn cael eu hysbysebu'n ddwyieithog.

Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 75% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch arwyddion a arddangosir gan gorff.²⁶

Cadarnhaodd bod arwyddion sy'n cael eu harddangos y tu fewn i adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg, er nad oedd y testun Cymraeg wedi'i osod fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Safonau ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr ymrwymiadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.

Nododd y Gymdeithas fod cyhoeddiadau dros offer sain yn cael eu gwneud o fewn gweithle'r sefydliad, ond nad oedd yn gwneud y cyhoeddiadau hyn yn Gymraeg.

²⁴ Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

²⁵ Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

²⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Nid oedd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu'n benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur, a hynny am ei bod o'r farn nad oedd ganddi'r cyllid er mwyn adnewyddu ac adeiladu systemau a phrosesau i'r graddau angenrheidiol.

Safonau hybu [143-144]

Cadarnhaodd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth nad oedd yn cydsynio i safonau hybu fod yn gymwysadwy iddi.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 62% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cadw cofnodion.²⁷

Wrth ystyried gofynion y safonau dan sylw, nododd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth ei bod yn cofnodi unrhyw wybodaeth berthnasol yn anffurfiol.

Nid oedd y Gymdeithas yn ystyried y byddai gwneud y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd cost datblygu systemau newydd er mwyn cofnodi ac adrodd ar weithgareddau. Ychwanegodd na fyddai'n bosibl gwneud ymrwymadau o ran amserlenni adrodd tan fod ystod y safonau y bydd rhaid cydymffurfio â hwy yn glir.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Nid oedd Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd cost datblygu systemau newydd er mwyn cofnodi ac adrodd ar weithgareddau.

Er hynny, cadarnhaodd y byddai'n ymgeisio i weithredu o fewn gofynion y safonau yn ôl yr angen, a hynny er mwyn darparu gwybodaeth berthnasol i'r Comisiynydd.

²⁷ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Gofal Cymru

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad ydyw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg fel rheol.

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 43% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.²⁸

Nododd Gofal Cymru eu bod yn ystyried gwneud detholiad o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur, sef 2, 3, 4, 5 a 7, a hynny oherwydd baich ychwanegol y gost, oedi o ran amser ac anhawster eu deall yn achos rhai o'r defnyddwyr gwasanaeth.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]

Nododd Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 60% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.²⁹

Nododd Gofal Cymru ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur ac eithrio safon 22. Ymhlith y rhesymau, nodwyd y byddai'n afresymol iddo gydymffurfio â safonau 9-21 gan nad oes ganddo'r adnodd staff dwyieithog i'w ddarparu tu hwnt i gyfarch galwyr yn Gymraeg. Mynegodd Gofal Cymru iddo gael trafferth recriwtio staff â sgiliau Cymraeg yn ogystal â'r cymwyseddau eraill yn y gorffennol.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 72% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.³⁰

²⁸ Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²⁹ Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁰ Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mynegodd Gofal Cymru nad yw'n ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd y baich ariannol o orfod caffael gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]

Nododd Gofal Cymru nad ydynt yw'n gwneud y gweithgaredd dan sylw ond fe gadarnhawyd bod darpariaeth o fewn ei gynllun iaith yn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg pe bai'n cynnal cyfarfod o'r fath i'r dyfodol.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 80% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.³¹

Nododd Gofal Cymru ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur ar sail costau a diffyg galw tybiedig.

Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]

Nododd Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn unig, ond nad ydynt yn ei gwneud yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.³²

Nododd Gofal Cymru eu bod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur oherwydd y gost, diffyg sgiliau iaith Gymraeg y gweithwyr cefnogol a diffyg galw tybiedig.

Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff Safon ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]

Nododd Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.³³

Nododd Gofal Cymru eu bod yn ystyried gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

³¹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³² Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³³ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]

Nododd Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.

Nododd Gofal Cymru ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 8: Cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau Safonau ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]

Nododd Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 60% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.³⁴

Nododd Gofal Cymru ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 9: Cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni Safonau ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]

Nododd Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg ar gais.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 25% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.³⁵

Nododd Gofal Cymru ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur ar sail costau cyfieithu ac argraffu mewn dwy iaith.

Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]

Nododd Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein.³⁶

³⁴ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁵ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Nododd Gofal Cymru fod cynnwys ei wefan yn ddwyieithog ac eithrio'r adran newyddion. Roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]

Nododd Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.

Nododd Gofal Cymru ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]

Nododd Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.

Mynegodd Gofal Cymru ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur oherwydd nad oes ganddo'r adnodd dynol â'r sgiliau dwyieithog angenrheidiol ar hyn o bryd.

Gweithgaredd 13: Hysbysiadau swyddogol Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]

Nododd Gofal Cymru nad yw'n gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.³⁷

Nododd Gofal Cymru ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur gan nad yw'n ymgymryd â'r gweithgaredd.

Gweithgaredd 14: Dyfarnu ar geisiadau am grant Safonau ar gyfer dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]

Nododd Gofal Cymru nad yw'n gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 33% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer dyfarnu ar geisiadau am grant.³⁸

³⁷ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁸ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Nododd Gofal Cymru ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur gan nad yw'n ymgymryd â'r gweithgaredd.

Gweithgaredd 15: Dyfarnu ar dendrau am gontract Safonau ar gyfer dyfarnu ar dendrau am gontract [74-78]

Nododd Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 33% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer dyfarnu ar dendrau am gontract.³⁹

Mynegodd Gofal Cymru nad yw'n ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur oherwydd nad oes adnodd ariannol na dynol ganddo i allu cydymffurfio â'r dyletswyddau.

Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]

Nododd Gofal Cymru nad yw'n gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.⁴⁰

Dylid nodi bod adran 12 (2)(b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Mynegodd Gofal Cymru nad yw'n ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur gan nad yw'n cynnig gwasanaethau cefnogi trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Nodwyd, fodd bynnag, ei fod yn rhoi cyfle i'w ddefnyddwyr gwasanaeth fynegi dewis iaith.

Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff Safon ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]

Nododd Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% yr ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.⁴¹

³⁹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴⁰ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴¹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Nododd Gofal Cymru ei fod yn ystyried gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]

Nododd Gofal Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.

Nododd Gofal Cymru nad yw'n ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur gan nad yw ei hyfforddwyr cyfredol yn medru'r Gymraeg.

Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff Safon ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]

Nododd Gofal Cymru nad yw'n gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.

Nododd Gofal Cymru nad yw'n ystyried gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur oherwydd nid yw'n ymgymryd â'r gweithgaredd.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]

Nododd Gofal Cymru nad yw'n ystyried gwneud safon 161 yn benodol gymwys iddo'n rhesymol na chymesur oherwydd y baich ychwanegol fyddai arno i gasglu'r wybodaeth.

Safonau llunio polisi [86-95]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Gofal Cymru, ar gyfartaledd roedd 30% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau llunio polisi.⁴²

Nododd Gofal Cymru y creffir ar gynlluniau a rhoddir ystyriaeth i'r iaith Gymraeg lle bo'n berthnasol. Yn yr un modd, caiff polisiâu mewnol Gofal Cymru eu hasesu yn erbyn eu traweffaith gan y grŵp cyfartaledd ac amrywiaeth.

Nid oedd Gofal Cymru yn ystyried bod gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur gan mai polisiâu mewnol yn unig y creffir arnynt.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Nododd Gofal Cymru ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur, a hynny oherwydd nad yw'n rhoi cyhoeddusrwydd i safonau llunio polisi ar hyn o bryd.

⁴² Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau gweithredu [96-141]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Gofal Cymru, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff.

Nododd Gofal Cymru ei fod yn gweithredu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol ac y caiff gweithwyr ddewis derbyn dogfennau adnoddau dynol yn Gymraeg.

Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Gofal Cymru, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff.

Cadarnhaodd Gofal Cymru na chaiff staff eu hysbysu bod modd iddynt wneud ac ymateb i gwynion trwy gyfrwng y Gymraeg ac ni chaniateir cynnal cyfarfod i drafod y gŵyn yn Gymraeg. Ymhlith y rhesymau dros hynny oedd cost ariannol, sensitifwydd darparu cyfieithu ar y pryd ac anallu uwch reolwyr i siarad Gymraeg.

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [114-117]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Gofal Cymru, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch corff yn disgyblu staff.

Cadarnhaodd Gofal Cymru na chaiff staff eu hysbysu bod modd iddynt ymateb i honiad a wnaed yn eu herbyn trwy gyfrwng y Gymraeg ac na fyddai cyfarfod disgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg ychwaith. Ymhlith y rhesymau dros hynny oedd cost ariannol, sensitifwydd darparu cyfieithu ar y pryd ac anallu uwch reolwyr i siarad Gymraeg.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118-124]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Gofal Cymru, ar gyfartaledd roedd 29% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd.⁴³

Nododd Gofal Cymru nad yw'n cydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion ar hyn o bryd.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Gofal Cymru, ar gyfartaledd roedd 56% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.⁴⁴

Cadarnhaodd Gofal Cymru ei fod yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion ac fe rennir yr wybodaeth ar draws y sefydliad. Cadarnhaodd Gofal Cymru ei fod yn cynnig gwersi Cymraeg i staff gan ddatblygu eu sgiliau ymhellach pan fo'i hangen ar gyfer y swydd.

⁴³ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁴⁴ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Nodwyd mai Saesneg yw cyfrwng hyfforddiant galwedigaethol Gofal Cymru ond ei fod yn darparu gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth cyflogaion o'r Gymraeg, dealltwriaeth o'r gofynion sydd arnynt i weithredu'n unol â'u cynllun iaith a sut y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Safonau ynghylch recriwtio gan gorff [134-138]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Gofal Cymru, ar gyfartaledd roedd 43% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch recriwtio gan gorff.⁴⁵

Cadarnhaodd Gofal Cymru fod ei becyn recriwtio yn Gymraeg ar gais, ac nad ydynt yn datgan na chaiff cais a gyflwynir yn Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Er hynny, mynegwyd y byddai ceisiadau yn y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal. Cadarnhaodd Gofal Cymru mai Cymraeg fyddai cyfrwng gohebiaeth yn dilyn cais a wnaed yn yr iaith honno.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Gofal Cymru, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.

Nododd Gofal Cymru nad yw'r arwyddion a arddangosir yng ngweithle'r sefydliad yn cynnwys y Gymraeg.

Safon ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Gofal Cymru, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.

Nododd Gofal Cymru nad yw'n gwneud cyhoeddiadau sain at sylw'i weithwyr.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Nododd Gofal Cymru ei fod yn ystyried gwneud safon 173 yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur, a hynny oherwydd y baich o gasglu gwybodaeth ychwanegol.

Safonau hybu [143-144]

Mynegodd Gofal Cymru nad yw'n cydsynio i safonau hybu fod yn gymwysadwy iddo.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Gofal Cymru, ar gyfartaledd roedd 38% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau cadw cofnodion.⁴⁶

Mynegodd Gofal Cymru ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

⁴⁵ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁴⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Nododd Gofal Cymru ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn afresymol ac anghymesur, a hynny oherwydd nad yw'n rhoi cyhoeddusrwydd i safonau cadw cofnodion ar hyn o bryd.

Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Roedd yn ystyried y gallai gofynion nifer o'r safonau fod yn rhesymol a chymesur.

Er hynny, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud safonau 3,4 a 5 yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd costau cydymffurfio â'r safonau. Ategwyd at hynny gan nodi na fyddai'r gwariant yn hyrwyddo buddiannau'r mwyafrif o fuddiolwyr yr elusen yn ei dyb ef.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]

Nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Roedd yn ystyried y gallai detholiad o'r safonau fod yn rhesymol a chymesur.

Er hynny, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny o ystyried gofynion safonau 8-11 a 15-21. Nododd yr angen i sicrhau bod asedau'r elusen yn cael eu defnyddio i hyrwyddo ei fuddiannau, ac y byddai'n afresymol ac yn anghymesur i ddarparu adnoddau ychwanegol i ddelio â galwadau Cymraeg, ynghyd â chofnodi dewis iaith galwyr.

Ychwanegodd bod rhai galwadau'n cael eu trosglwyddo i wirfoddolwyr, ac ni fyddai'n bosibl sicrhau y byddai gwirfoddolwyr â sgiliau iaith Gymraeg ar gael ar bob achlysur.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Nododd y byddai'n medru cynnal rhai cyfarfodydd lleol yn Gymraeg os oedd y staff perthnasol yn medru'r Gymraeg, ond ni fyddai'n bosibl darparu hyn ar bob achlysur.

Cadarnhaodd y byddai'n ystyried defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd digon mawr i gyfiawnhau'r ddarpariaeth, e.e. pe bai 50% neu fwy o fynychwyr wedi datgan y byddant yn dymuno cyfrannu yn Gymraeg.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]

Nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Cadarnhaodd y byddai'n ystyried defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd digon mawr i gyfiawnhau'r ddarpariaeth, e.e. pe bai 50% neu fwy o fynychwyr wedi datgan y byddant yn dymuno cyfrannu yn Gymraeg. Ychwanegodd y byddai'n fwy o her i ganfod y niferoedd hyn o flaen llaw ar gyfer cyfarfodydd agored i'r cyhoedd.

Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff

Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]

Nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd y gost o ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer holl ddigwyddiadau'r sefydliad.

Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff

Safonau drafft ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]

Nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Nododd ei fod yn darparu taflenni dwyieithog yng Nghymru ar gyfer recriwtio gwirfoddolwyr ac i hyrwyddo'i wasanaethau.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safon dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd diffyg adnoddau a galw isel ar gyfer fersiynau Cymraeg o adnoddau presennol.

Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus

Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]

Nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Nododd bod ganddo daflenni a baneri Cymraeg, ond bod adnoddau eraill megis ysgrifbinnau a balwnau'n cael eu darparu yn Saesneg yn unig er mwyn lleihau costau eu cynhyrchu.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd bod rhai adnoddau marchnata'n cael eu dosbarthu ledled y DU.

**Gweithgaredd 8: Cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau
Safonau ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Cadarnhaodd ei fod yn aml yn cynhyrchu ymchwil perthnasol i Gymru yn benodol yn y Gymraeg, ond nid oedd yn cynhyrchu dogfennau eraill yn Gymraeg.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, gan nodi ei rwymedigaeth i sicrhau y defnyddir ei gyllid yn unol â buddiannau'r elusen. Ychwanegodd y byddai cost cynhyrchu holl ddogfennau'r sefydliad yn waharddol ac o bosibl yn wastraffus.

Cadarnhaodd na fyddai unrhyw fersiynau Cymraeg o ddogfennau a gyhoeddwyd yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r fersiynau Saesneg.

**Gweithgaredd 9: Cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni
Safonau ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]**

Nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Nododd na fyddai'n bosibl iddo gyfieithu ei ffurflenni i gyd am resymau cost, ond y byddai'n ymgeisio i ddarparu'r gwasanaeth hwn ar gais.

**Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]**

Nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Nododd y byddai'n medru darparu'r rhannau hynny o'i wefan sy'n berthnasol i Gymru yn benodol yn Gymraeg, a hefyd ei dudalen gartref o bosibl. Cadarnhaodd y byddai'n medru datgan fod fersiynau Cymraeg o dudalennau Saesneg ar gael lle bo'n berthnasol.

Nododd na fyddai'n medru sicrhau fod bob tudalen o'i wefan ar gael yn Gymraeg, nac ychwaith darparu rhyngwyneb a dewislenni yn Gymraeg ar gyfer bod tudalen o'i wefan.

Nid oedd yn cyhoeddi apiau.

**Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff
Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]**

Nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd ei fod yn darparu arwyddion dwyieithog wrth gyflenwi gwasanaethau mewn ysbytai yng Nghymru. Ychwanegodd nad oedd yr elusen yn defnyddio llawer o arwyddion

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

perthnasol eraill.

Er hynny, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Nododd na fyddai safon 58 yn ymarferol gan nad oedd ganddo gyfieithydd mewnol i gyfieithu arwyddion ar frys. Mewn perthynas â safon 59, nododd fod nifer o arwyddion eisoes wedi eu cynhyrchu nad oedd yn dangos y Gymraeg yn gyntaf, ac y byddai'n waharddol o ran cost i ailgynhyrchu'r arwyddion hyn er mwyn gosod y Gymraeg yn gyntaf.

Gweithgaredd 12: Derbyng ymwelwyr i adeiladau'r corff Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]

Nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Nododd nad oedd ganddo dderbynfa yn ei brif swyddfa, ond ei fod yn ystyried ychwanegu un yn y dyfodol. Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny'n bennaf oherwydd na fyddai'n medru sicrhau y byddai siaradwr Cymraeg ar gael i dderbyn ymwelwyr ar bob achlysur. Ychwanegodd y byddai'n waharddol o ran cost i ddefnyddio cyfieithydd i dderbyn ymwelwyr yn Gymraeg.

Cadarnhaodd y byddai'n medru sicrhau bod staff sydd yn medru'r Gymraeg yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny.

Gweithgaredd 13: Hysbysiadau swyddogol Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]

Nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am ei fod o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

Gweithgaredd 14: Dyfarnu ar geisiadau am grant Safonau ar gyfer dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]

Nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am ei fod o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

Fodd bynnag, nododd ei fod weithiau yn dychwelyd cyllid elusennol dros ben i ysbytai lle mae'n cynnal unedau mân-werthu.

Gweithgaredd 15: Dyfarnu ar dendrau am gontract Safonau ar gyfer dyfarnu ar dendrau am gontract [74-78]

Nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Nododd ei fod yn tendro am wasanaethau ledled y DU yn bennaf,

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

ac ni fyddai'n medru darparu'r gwasanaethau dan sylw drwy gyfrwng y Gymraeg (gan gynnwys unrhyw anghenion cyfieithu) am resymau cost a diffyg adnoddau staff.

Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]

Nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Dylid nodi bod adran 12 (2)(b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Cadarnhaodd ei fod yn datgan fod gwasanaethau Cymraeg ar gael pan wneir ceisiadau am y gwasanaethau perthnasol.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am na fyddai ei holl ddogfennau a ffurflenni ar gael yn Gymraeg, gan gynnwys deunydd ar dudalennau o'r wefan sy'n berthnasol ledled y DU.

Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff

Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]

Nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd ei fod yn meddu ar ddeunydd ysgrifennu ac is-bennawd Cymraeg i'w defnyddio yng Nghymru yn unig. Nododd y byddai'n rhy gostus i'r elusen i gynhyrchu'i holl ddeunydd yn ddwyieithog ledled y DU. Am y rheswm hwn, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safon dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 18: Cyrsiâu a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]

Nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff

Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]

Nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]

Nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol y byddai'n gweithio tuag at gydymffurfio â'r safonau i raddau mwy neu lai, ac eithrio safon 161. Wrth ystyried gofynion y safon hon, nododd nad oedd yn darparu fersiwn Gymraeg o'i adroddiad blynyddol, a hynny am ei fod yn trafod gweithgareddau'r elusen ledled y DU.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddo yn

rhesymol a chymesur.

Safonau llunio polisi [86-95]

Nid oedd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol yn ystyried y byddai gwneud y safonau ynghylch llunio polisi yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Nododd bod ei bolisiâu yn ddogfennau mewnol a oedd yn weithredol ar draws yr elusen. Ymrwymodd i sicrhau y byddai'r Gymraeg yn cael ei hystyried lle bo'n berthnasol (o ran polisiâu marchnata er enghraifft), ond y byddai penderfyniadau ar unrhyw ddarpariaeth o'r fath yn ddibynnol ar argaeledd cyllid yn hytrach na pholisi.

Wrth asesu polisiâu newydd neu ddiwygiedig, nododd nad oedd yn ystyried effeithiau ar y Gymraeg mewn modd ffurfiol. Ychwanegodd nad oedd yn holi barn yn ffurfiol ar bolisiâu, er ei fod yn rhoi cyfleoedd i wirfoddolwyr a chyflogeion wneud sylwadau ar ffyrdd o weithio a dulliau cyfathrebu arfaethedig.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Nid oedd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am resymau cost.

Safonau gweithredu [96-141]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Wrth ystyried gofynion safon 96, nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol nad oedd yn gweithredu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, â'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

Cadarnhaodd nad oedd yn cydymffurfio a gofynion safonau 97-109 pan gyflwynwyd y dystiolaeth, gan nodi mai llai na 12% o'i gyflogeion oedd wedi eu lleoli yng Nghymru ac y byddai'n afresymol ac yn anghymesur i gyfieithu'r dogfennau dan sylw ar gyfer y gyfran hon o staff.

Safonau ar gyfer cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol ei fod yn caniatáu i aelodau staff i wneud cwynion, neu i ymateb i unrhyw gŵyn sy'n ymwneud ag ef neu â hi, yn Gymraeg. Fodd bynnag, ni fyddai'n cynnal cyfarfodydd dilynol yn Gymraeg, nac ychwaith yn hysbysu'r ffaith ei fod yn bosibl cwyno neu ymateb i gŵyn yn Gymraeg.

Safonau ar gyfer corff yn disgyblu staff [114-117]

Nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol nad oedd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion safonau 114-117 pan gyflwynwyd y dystiolaeth. Cadarnhaodd ei fod yn caniatáu i staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn eu herbyn drwy broses ddisgyblu fewnol, er nad oedd yn hysbysebu'r gallu i wneud hyn. Nododd y byddai'n medru cynnal cyfarfod yn Gymraeg pe bai'n derbyn cais i wneud hynny drwy ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

pryd, ac mewn rhai achosion byddai rheolwyr yn medru cynnal cyfarfodydd yn Gymraeg eu hunain.

Safonau ar gyfer technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd [118-124]

Cadarnhaodd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol ei fod yn darparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg i staff, a'i fod hefyd yn darparu rhyngwyneb Cymraeg ar gyfer meddalwedd lle bo rhyngwyneb yn bodoli eisoes. Nid oedd yn darparu ei fewnrwyd yn Gymraeg, a hynny am resymau cost a diffyg adnoddau staff.

Safonau ar gyfer corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Nid oedd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol yn cydymffurfio yn llawn â gofynion safonau 125-133 pan gyflwynwyd y dystiolaeth. Pe byddai rheolwr penodol yn medru'r Gymraeg byddai'n bosibl iddynt gynnal hyfforddiant ac ymsefydlu yn Gymraeg, ond byddai'r deunydd ar gael yn Saesneg yn unig.

Safonau ar gyfer recriwtio gan gorff [134-138]

Nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol ei fod yn croesawu siaradwyr Cymraeg, ond nad oedd sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol ar gyfer unrhyw swyddi o fewn y sefydliad. Ychwanegodd ei fod yn cyflogi unigolion ar sail eu gallu i wneud swyddi penodol, ac nad oedd yn asesu'r sgiliau hynny yn rhan o'r broses recriwtio ar hyn o bryd.

Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Cadarnhaodd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol nad oedd arwyddion o fewn adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg ar hyn o bryd.

Safonau ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Cadarnhaodd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol nad oedd cyhoeddiadau dros offer sain yn cael eu gwneud o fewn gweithle'r sefydliad.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Nid oedd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am nad oedd yn cyhoeddi safonau gweithredu, nac ychwaith o'r farn y byddai galw digonol am y wybodaeth dan sylw yn Gymraeg ar hyn o bryd. Ychwanegodd na fyddai'n medru cyfiawnhau'r costau cyfieithu.

Safonau hybu [143-144]

Nid oedd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol yn cydsynio i safonau hybu fod yn gymwysadwy iddo.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Wrth ystyried gofynion y safonau cadw cofnodion, nododd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol ei fod yn cofnodi'r nifer o wirfoddolwyr sy'n medru'r Gymraeg, manylion y

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

cwynion a dderbyniwyd yn Gymraeg ynghyd â'r ymatebion iddynt.

O ran elfennau'r safonau dan sylw sy'n ymwneud â recriwtio, nododd y byddai'n sicrhau y byddai siaradwr Cymraeg yn bresennol mewn cyfweiliadau ar gyfer unrhyw swyddi oedd â'r Gymraeg yn elfen hanfodol ohonynt er mwyn asesu sgiliau iaith Gymraeg ymgeiswyr.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am oedd ei fod o'r farn na fyddai cofnodi'r holl wybodaeth dan sylw yn ddefnydd effeithiol o adnoddau.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Nid oedd Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Nododd nad oedd yn cadw cofnodion fel mater o drefn ac y byddai'n heriol iddo ddechrau gwneud hynny o ystyried yr angen i ddefnyddio'i adnoddau elusennol yn effeithiol.

Hafal

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd Hafal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 29% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.⁴⁷

Nododd Hafal ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]

Nododd Hafal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.⁴⁸

Nododd Hafal ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd Hafal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.⁴⁹

Mynegodd Hafal y byddai'n gwneud pob ymdrech i hwyluso gallu unigolyn a ddymunai gymryd rhan mewn cyfarfod trwy gyfrwng y Gymraeg. Er iddo fynegi ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, nodwyd y byddai natur ac amgylchiadau'r cyfarfod yn ystyriaeth ganddo wrth ddod i benderfyniad.

⁴⁷ Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴⁸ Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴⁹ Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]**

Nododd Hafal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.⁵⁰

Nododd Hafal ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur a'i fod yn cydymffurfio eisoes yn rhinwedd ei gynllun iaith Gymraeg.

**Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff
Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]**

Nododd Hafal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.⁵¹

Nododd Hafal ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur a'i fod yn cydymffurfio eisoes yn rhinwedd ei gynllun iaith Gymraeg.

**Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
Safon ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Nododd Hafal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.⁵²

Nododd Hafal ei fod yn ystyried gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur a'i fod yn cydymffurfio eisoes yn rhinwedd ei gynllun iaith Gymraeg.

**Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus
Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Nododd Hafal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.⁵³

⁵⁰ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁵¹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁵² Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁵³ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Nododd Hafal ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 8: Cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau Safonau ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]

Nododd Hafal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 90% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.⁵⁴

Nododd Hafal ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur a'i fod yn cydymffurfio eisoes yn rhinwedd ei gynllun iaith Gymraeg.

Gweithgaredd 9: Cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni Safonau ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]

Nododd Hafal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.⁵⁵

Nododd Hafal ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur a'i fod yn cydymffurfio eisoes yn rhinwedd ei gynllun iaith Gymraeg.

Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]

Nododd Hafal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 83% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein.⁵⁶

Nododd Hafal ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur a'i fod yn cydymffurfio eisoes yn rhinwedd ei gynllun iaith Gymraeg.

Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]

Nododd Hafal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.

⁵⁴ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁵⁵ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁵⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Nododd Hafal ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur a'i fod yn cydymffurfio eisoes yn rhinwedd ei gynllun iaith Gymraeg.

Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]

Nododd Hafal nad ydynt yn gwneud y gweithgaredd dan sylw oherwydd nid yw aelodau'r cyhoedd fel arfer yn ymweld ag ef gan fod ei gleientiaid yn unigolion a theuluoedd sydd wedi'u cyfeirio i dderbyn gwasanaeth y person perthnasol gan eu meddygon teulu, gweithwyr cymdeithasol a seiciatryddion.

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 43% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.⁵⁷

Mynegodd Hafal nad yw'n ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur gan ei fod yn disgwyl ei ymwelwyr dan drefn apwyntiadau.

Gweithgaredd 13: Hysbysiadau swyddogol Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]

Nododd Hafal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.⁵⁸

Nododd Hafal ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur a'i fod yn cydymffurfio eisoes yn rhinwedd ei gynllun iaith Gymraeg.

Gweithgaredd 14: Dyfarnu ar geisiadau am grant Safonau ar gyfer dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]

Nododd Hafal nad yw'n gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 83% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer dyfarnu ar geisiadau am grant.⁵⁹

Gweithgaredd 15: Dyfarnu ar dendrau am gontract Safonau ar gyfer dyfarnu ar dendrau am gontract [74-78]

Nododd Hafal nad yw'n gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer dyfarnu ar dendrau am gontract.⁶⁰

⁵⁷ Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁵⁸ Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd

⁵⁹ Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁶⁰ Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]

Nododd Hafal nad yw'n gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.⁶¹

Dylid nodi bod adran 12 (2)(b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff

Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]

Nododd Hafal ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% yr ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.⁶²

Nododd Hafal ei fod yn ystyried gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur a'i fod yn cydymffurfio eisoes yn rhinwedd ei gynllun iaith Gymraeg.

Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]

Nododd Hafal nad yw'n gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.

Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff

Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]

Nododd Hafal nad yw'n gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]

Nododd Hafal ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

⁶¹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁶² Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Safonau llunio polisi [86-95]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Hafal, ar gyfartaledd roedd 90% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau llunio polisi.⁶³

Nododd Hafal nad yw'n ymgynghori ar benderfyniadau polisi nac ar hyn o bryd yn asesu'r effaith y caiff eu penderfyniadau polisi ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg. Er hynny, mynegodd Hafal ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Nododd Hafal ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau gweithredu [96-141]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Hafal, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff.

Nododd Hafal ei fod yn gweithredu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol ac fe'i cyhoeddir ar ei fewnwyd. Nodwyd, fodd bynnag, fod gweinyddiaeth adnoddau dynol y sefydliad yn cael ei chynnal trwy gyfrwng y Saesneg ar hyn o bryd ac y byddent yn ymdrechu i gydymffurfio ar gais gan unigolyn pe bai'r safonau hyn yn cael eu gwneud yn benodol gymwys iddo.

Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Hafal, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff.

Cadarnhaodd Hafal y caiff staff eu hysbysu bod modd iddo wneud ac ymateb i gwynion trwy gyfrwng y Gymraeg ond ni fyddai modd iddynt gynnal cyfarfod i drafod y gŵyn heb gefnogaeth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [114-117]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Hafal, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch corff yn disgyblu staff.

Cadarnhaodd Hafal y caiff staff eu hysbysu bod modd iddynt ddilyn y drefn disgyblu trwy gyfrwng y Gymraeg ond ni fyddai modd iddynt gynnal cyfarfod i ddisgyblu heb gefnogaeth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

⁶³ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118-124]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Hafal, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd.

Mynegodd Hafal nad yw'n darparu meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg na rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer ei staff ac mai Saesneg yw cyfrwng ei safle mewnwyd. Nodwyd y byddai cost sylweddol ynghlwm wrth gydymffurfio â'r safonau hyn oherwydd bod cynnwys y safle yn newid yn aml.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Hafal, ar gyfartaledd roedd 33% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.⁶⁴

Cadarnhaodd Hafal ei fod yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion ac mae'n cynnig gwersi Cymraeg i staff ac yn datblygu eu sgiliau yn dilyn hynny ar sail unigol pan fo angen. Saesneg yw cyfrwng hyfforddiant galwedigaethol Hafal ond mae'n darparu gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth cyflogeion o'r Gymraeg.

Cadarnhaodd Hafal fod manylion cyswllt e-bost gweithwyr yn Gymraeg ond nad oedd logo neu destun i ddynodi hyfedredd iaith nac ychwaith negeseuon 'allan o'r swyddfa' ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd.

Safonau ynghylch recriwtio gan gorff [134-138]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Hafal, ar gyfartaledd roedd 43% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch recriwtio gan gorff.⁶⁵

Cadarnhaodd Hafal fod ei becyn recriwtio yn Gymraeg a'i fod yn datgan na chaiff cais a gyflwynir yn Gymraeg ei drin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Hafal, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.

Nododd Hafal nad yw arwyddion y tu fewn i'r sefydliad yn cynnwys y Gymraeg.

Safon ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Hafal, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.

Ni nododd Hafal a yw'n gwneud cyhoeddiadau sain at sylw'i weithwyr.

⁶⁴ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁶⁵ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Nododd Hafal y byddai'n ymdrechu i gydymffurfio â'r safonau hyn lle bo'n rhesymol ac ymarferol iddo wneud hynny a'i fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau hybu [143-144]

Mynegodd Hafal nad yw'n cydsynio i wneud y safonau hybu yn gymwysadwy iddo.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Hafal, ar gyfartaledd roedd 69% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau llunio polisi.⁶⁶

Mynegodd Hafal y byddai modd iddo gydymffurfio â'r safonau hyn drwy'r sawl sydd yn gyfrifol am adnoddau dynol, hyfforddiant a gwasanaethau corfforaethol. Nododd Hafal ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Nododd Hafal ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

⁶⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Leonard Cheshire Disability

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Nododd Leonard Cheshire Disability y byddai modd iddo gydymffurfio â'r safonau hyn ac yn ystyried eu gwneud yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd Leonard Cheshire Disability nad yw'n gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Nid oedd Leonard Cheshire Disability yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur oherwydd mae'n bosibl na fyddai aelodau staff ar gael â sgiliau iaith Gymraeg ar gael i gynnal cyfarfod ar fyr rybudd.

Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff

Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff Safon ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'u bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn ystyried gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'u bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 8: Cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau Safonau ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur oherwydd y byddai rhai dogfennau, megis ei adroddiad blynyddol, yn ddrud i'w gyfieithu ac y byddai'n ffafrio cyfieithu dogfennau ar gais.

Gweithgaredd 9: Cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni Safonau ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur oherwydd ei fod yn cynhyrchu nifer fawr o ffurflenni ac nid yw pob un ar gael i'w cleientiaid.

Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur oherwydd mai'r pencadlys yn Llundain sy'n cynnal y wefan ac fe newidir y cynnwys yn aml. Gan ystyried hynny, nodwyd y byddai costau ynghlwm â chydymffurfio.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff

Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 12: Derbyng ymwelwyr i adeiladau'r corff

Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur oherwydd ni all warantu fod siaradwr Cymraeg ar gael ar bob achlysur.

Gweithgaredd 13: Hysbysiadau swyddogol

Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 14: Dyfarnu ar geisiadau am grant

Safonau ar gyfer dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]

Nododd Leonard Cheshire Disability nad yw'n gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Gweithgaredd 15: Dyfarnu ar dendrau am gontract

Safonau ar gyfer dyfarnu ar dendrau am gontract [74-78]

Nododd Leonard Cheshire Disability nad yw'n gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]

Nododd Leonard Cheshire Disability nad yw'n gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Dylid nodi bod adran 12 (2)(b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff

Safon ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn ystyried gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]

Nododd Leonard Cheshire Disability nad yw'n gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff

Safon ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]

Nododd Leonard Cheshire Disability nad yw'n gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau llunio polisi [86-95]

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn ymgynghori ar benderfyniadau polisi ond nad yw'n asesu'r effaith caiff eu penderfyniadau polisi ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg. Er hynny, mynegodd Leonard Cheshire Disability ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau gweithredu [96-141]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Nododd Leonard Cheshire Disability nad yw'n gweithredu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Nodwyd, fodd bynnag, iddo holi ei weithwyr a hoffent dderbyn dogfennau a pholisïau adnoddau dynol yn Gymraeg ac fe fyddant yn eu cynhyrchu ar gais.

Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Cadarnhaodd Leonard Cheshire Disability na chaiff staff wneud nac ymateb i gwynion trwy gyfrwng y Gymraeg ond y byddai dogfennau cysylltiedig ar gael ar gais.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [114-117]

Cadarnhaodd Leonard Cheshire Disability y caiff staff ddilyn y drefn ddisgyblu trwy gyfrwng y Gymraeg ond ni fyddant yn cael eu hysbysu o hynny. Gall Leonard Cheshire Disability gynhyrchu dogfennaeth gysylltiedig â'r drefn disgyblu yn Gymraeg yn unol â chais i wneud hynny.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118-124]

Mynegodd Leonard Cheshire Disability nad yw'n darparu meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg na rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer ei staff ac mai Saesneg yw cyfrwng ei safle mewnwyd. Nodwyd y byddai cost sylweddol ynghlwm wrth gydymffurfio â'r safonau hyn.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Cadarnhaodd Leonard Cheshire Disability ei fod yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion ac yn cynnig gwersi Cymraeg i rai staff ar gais. Saesneg yw cyfrwng hyfforddiant galwedigaethol Leonard Cheshire Disability ac nid yw'n darparu gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth cyflogeion o'r Gymraeg.

Cadarnhaodd Leonard Cheshire Disability nad yw manylion cyswllt e-bost gweithwyr yn Gymraeg, nad oedd logo neu destun i ddynodi hyfedredd iaith nac ychwaith negeseuon 'allan o'r swyddfa' ar gael yn Gymraeg.

Safonau ynghylch recriwtio gan gorff [134-138]

Cadarnhaodd Leonard Cheshire Disability nad yw ei becyn recriwtio yn Gymraeg ac nad yw'n datgan na chaiff cais a gyflwynir yn Gymraeg ei drin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Nododd Leonard Cheshire Disability nad yw arwyddion y tu fewn i'r sefydliad yn cynnwys y Gymraeg.

Safon ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Nododd Leonard Cheshire Disability nad yw'n gwneud cyhoeddiadau sain at sylw'i weithwyr.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau hybu [143-144]

Mynegodd Leonard Cheshire Disability ei fod yn cydsynio i wneud y safonau hybu yn gymwysadwy iddo.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Nododd Leonard Cheshire Disability ei fod yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Wallich-Clifford Community

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd Wallich-Clifford Community ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Cadarnhaodd y byddai'n croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, ac yn trin gohebiaeth Gymraeg yn yr un modd â'r Saesneg o ran amseru ymatebion. Nodwyd y byddai gwasanaethau cyfieithu proffesiynol yn cael eu defnyddio mewn achosion lle nad oedd staff ar gael i ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg i'r safon angenrheidiol.

Er yr uchod, nid oedd yn ystyried gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny gan iddo nodi mai llai na 1% o ddefnyddwyr gwasanaethau'r sefydliad a oedd yn siarad Cymraeg, ynghyd â 4.4% o'i staff. Ategwyd at hynny gan nodi nad oedd yn cyflogi niferoedd digonol o siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd er mwyn medru cydymffurfio â'r safonau.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]

Nododd Wallich-Clifford Community ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Nododd y byddai croeso i gwsmeriaid gynnal sgysrsiau ffôn ag ef yn Gymraeg neu yn Saesneg, a bod galwadau'n cael eu hateb yn Gymraeg pan fydd aelod o staff ar gael i wneud hynny. Mewn achosion lle nad oes siaradwyr Cymraeg ar gael, bydd gofyn i unigolion gynnal galwadau yn Saesneg. Cadarnhawyd y byddai negeseuon peiriant ateb yn ddwyieithog yn holl swyddfeydd y sefydliad yng Nghymru.

Er yr uchod, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny wedi iddo nodi mai llai na 1% o ddefnyddwyr gwasanaethau'r sefydliad a oedd yn siarad Cymraeg, ynghyd â 4.4% o'i staff. Ategwyd at hynny gan nodi nad oedd yn cyflogi niferoedd digonol o siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd er mwyn medru cydymffurfio â'r safonau.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd Wallich-Clifford Community ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Nododd nad oedd yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau cyllidol, ac mai llai na 1% o ddefnyddwyr ei wasanaethau oedd

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

yn adnabod eu hunain fel siaradwyr Cymraeg. Oherwydd hynny, fe fyddai'n asesu pob cyfarfod yn ei dro er mwyn penderfynu a fyddai angen gwasanaeth cyfieithu yn lle cynnig y gwasanaeth hynny ymhob cyfarfod. Fodd bynnag, nododd y byddai'n gweithio tuag at gydymffurfio a'r safonau be baent yn cael eu gwneud yn benodol gymwys iddo.

Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]

Nododd Wallich-Clifford Community ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd mai llai na 1% o ddefnyddwyr gwasanaeth y sefydliad a 4.4% o'i staff oedd yn siarad Cymraeg. Nodwyd y byddai gwasanaethau'n cael eu haddasu mewn ardaloedd lle roedd cyfran uwch o siaradwyr Cymraeg ymysg defnyddwyr gwasanaethau, ond bod angen hyblygrwydd i fedru addasu gwasanaethau i anghenion unigolion.

Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]

Nododd Wallich-Clifford Community ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd y trefnir digwyddiadau cyhoeddus er mwyn codi arian. Ategwyd at hynny gan nodi y byddai angen gosod costau cyfieithu yn erbyn unrhyw arian a godwyd.

Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff Safon ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]

Nododd Wallich-Clifford Community ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Cadarnhaodd nad oedd yn cydymffurfio â'r safon pan gyflwynwyd y dystiolaeth, ond ei fod yn ymrwymedig i ddatblygu ei weithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd dwyieithog.

Er yr uchod, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd mai llai na 1% o ddefnyddwyr gwasanaeth y sefydliad a 4.4% o'i staff oedd yn siarad Cymraeg.

Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]

Nododd Wallich-Clifford Community ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd ei fod yn gweithio tuag at gydymffurfio â'r safonau dan sylw, er nad oeddent yn gwneud hynny pan gyflwynwyd y dystiolaeth.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd mai llai na 1% o ddefnyddwyr gwasanaeth y sefydliad a 4.4% o'i staff oedd yn siarad Cymraeg.

Gweithgaredd 8: Cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau Safonau ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]

Nododd Wallich-Clifford Community ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd ei fod yn gweithio tuag at gydymffurfio â'r safonau dan sylw, er nad oedd yn gwneud hynny pan gyflwynwyd y dystiolaeth. Ategwyd at hynny gan nodi fod adroddiadau blynyddol y sefydliad yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, ac y byddai'r wefan newydd yn ddwyieithog. Nodwyd hefyd fod taflenni prosiect yn cael eu darparu'n ddwyieithog mewn ardaloedd lle siaredir Cymraeg yn bennaf.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd mai llai na 1% o ddefnyddwyr gwasanaeth y sefydliad a 4.4% o'i staff oedd yn siarad Cymraeg.

Gweithgaredd 9: Cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni Safonau ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]

Nododd Wallich-Clifford Community nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd mai llai na 1% o ddefnyddwyr gwasanaeth y sefydliad a 4.4% o'i staff oedd yn siarad Cymraeg.

Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]

Nododd Wallich-Clifford Community ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Cadarnhaodd y byddai'n cydymffurfio yn llawn â'r safonau o Fawrth 2015 ymlaen, yn dilyn lansio gwefan ddwyieithog newydd.

Fodd bynnag, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd mai llai na 1% o ddefnyddwyr gwasanaeth y sefydliad a 4.4% o'i staff oedd yn siarad Cymraeg.

Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]

Nododd Wallich-Clifford Community ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd ei fod yn gweithio tuag at gydymffurfio â'r safonau dan sylw, er nad oeddent yn gwneud hynny pan gyflwynwyd y dystiolaeth.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd mai llai na 1% o ddefnyddwyr gwasanaeth y sefydliad a 4.4% o'i staff oedd yn siarad Cymraeg.

Gweithgaredd 12: Derbyng ymwelwyr i adeiladau'r corff Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]

Nododd Wallich-Clifford Community ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd mai llai na 1% o ddefnyddwyr gwasanaeth y sefydliad a 4.4% o'i staff oedd yn siarad Cymraeg. Ategwyd at hynny gan nodi bod y staff hynny sydd yn siarad Cymraeg wedi eu lleoli ledled Cymru a bod ganddynt batrymau gwaith gwahanol. Golyga hyn na fyddant ar gael er mwyn darparu'r gwasanaeth dan sylw ar bob achlysur.

Gweithgaredd 13: Hysbysiadau swyddogol Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am ei fod o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Gweithgaredd 14: Dyfarnu ar geisiadau am grant Safonau ar gyfer dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am ei fod o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Gweithgaredd 15: Dyfarnu ar dendrau am gontract Safonau ar gyfer dyfarnu ar dendrau am gontract [74-78]

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am ei fod o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]

Dylid nodi bod adran 12 (2)(b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am ei fod o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff

Safon ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]

Nododd Wallich-Clifford Community ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nid yn Gymraeg.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd mai llai na 1% o ddefnyddwyr gwasanaeth y sefydliad a 4.4% o'i staff oedd yn siarad Cymraeg.

Gweithgaredd 18: Cyrsiâu a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am ei fod o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff

Safon ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny am ei fod o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Dylid nodi na dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth bellach i ymhelaethu ar y safbwynt hwn.

Safonau llunio polisi [86-95]

Cadarnhaodd Wallich-Clifford Community y byddai effeithiau polisiâu newydd ar y Gymraeg yn cael eu hasesu gan ei Bwyllgor Cydymffurfio Iaith Gymraeg.

O ran y graddau y byddai'r sefydliad yn trafod ac yn holi barn am effeithiau ei bolisiâu ar y Gymraeg, cadarnhaodd nad oedd yn cydymffurfio â'r safon pan gyflwynwyd y dystiolaeth ond bod y Pwyllgor Cydymffurfio Iaith Gymraeg yn gweithio tuag at gydymffurfiaeth.

Cadarnhaodd nad oedd yn meddu ar bolisi dyfarnu grantiau, a hynny am ei fod o'r farn nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Dylid nodi na ddarparwyd dystiolaeth bellach i ymhelaethu ar y farn hon.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Dylid nodi na dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth bellach i ymhelaethu ar y farn hon.

Safonau gweithredu [96-141]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Wrth ystyried gofynion safon 96, cadarnhaodd Wallich-Clifford Community ei fod yn meddu ar bolisi iaith Gymraeg a oedd ar gael ar ei fewnwyd.

Nododd nad oedd yn cydymffurfio â safonau 97-102, gan y byddai gwneud hynny yn gofyn am adnoddau gormodol o ystyried cyfran staff y sefydliad a oedd yn medru'r Gymraeg.

Yn yr un modd, cadarnhaodd y sefydliad nad oedd yn cydymffurfio â gofynion safonau 103-109 pan gyflwynwyd y dystiolaeth, ond y byddai'n medru gweithio tuag at gydymffurfiaeth pe bai'r safonau hynny'n cael eu gwneud yn benodol gymwys iddo.

Safonau ar gyfer cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Nododd Wallich-Clifford Community nad oedd yn cydymffurfio â gofynion y safonau dan sylw, gan y byddai gwneud hynny yn gofyn am adnoddau anghymesur o ystyried cyfran staff y sefydliad a oedd yn medru'r Gymraeg.

Safonau ar gyfer corff yn disgyblu staff [114-117]

Nododd Wallich-Clifford Community nad oedd yn cydymffurfio â gofynion y safonau dan sylw, gan y byddai gwneud hynny yn gofyn am adnoddau anghymesur o ystyried cyfran staff y sefydliad a oedd yn medru'r Gymraeg.

Safonau ar gyfer technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118-124]

Cadarnhaodd Wallich-Clifford Community ei fod yn gweithredu system fewnwyd. Aethpwyd ymlaen i nodi nad oedd yn cydymffurfio â gofynion y safonau dan sylw pan gyflwynwyd y dystiolaeth, a hynny am ei fod wedi newid ei system weithredu i SharePoint ar-lein yn ddiweddar, ac yn ymchwilio a fyddai'r system ar gael yn y Gymraeg.

Safonau ar gyfer corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Cadarnhaodd Wallich-Clifford Community ei fod yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion, a'i fod yn darparu hyfforddiant i'w gyflogeion yn y meysydd dan sylw yn safon 130. Ategwyd at hynny gan nodi bod y sefydliad yn darparu gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth cyflogeion newydd o'r Gymraeg yn rhan o raglen hyfforddiant sylfaenol ynglŷn â'r Gymraeg i staff.

Wrth ystyried gofynion safon 126, nododd bod hyfforddiant ynglŷn â delio â'r cyhoedd yn cael ei ddarparu yn ddwyieithog. O ran gofynion safonau 128 a 129, nododd bod hyfforddiant sylfaenol ynghylch cyfarch unigolion yn y Gymraeg yn dechrau cael ei ddarparu i staff y brif swyddfa, ac y byddai'n cefnogi ac yn ceisio cael hyfforddiant pellach i'w staff er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.

Nododd y sefydliad bod manylion cyswllt cyflogeion y sefydliad yn Gymraeg mewn negeseuon e-bost.

Safonau ar gyfer recriwtio gan gorff [134-138]

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Nododd Wallich-Clifford Community fod y fethodoleg a ddefnyddir gan y sefydliad er mwyn dod i benderfyniad ar gynnwys anghenion sgiliau Cymraeg angenrheidiol wrth hysbysebu swydd wag neu swydd newydd yn seiliedig ar amodau grant y sefydliad ac anghenion defnyddwyr ei gwasanaethau.

Cadarnhaodd y sefydliad nad oedd yn cydymffurfio â gofynion y safonau drafft dan sylw pan gyflwynwyd y dystiolaeth.

Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Nododd Wallich-Clifford Community nad oedd yr arwyddion sy'n cael eu harddangos y tu fewn i'w adeiladau yn Gymraeg.

Safon ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Nododd Wallich-Clifford Community nad oedd cyhoeddiadau dros offer sain yn cael eu gwneud o fewn gweithle'r corff.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Nid oedd Wallich-Clifford Community yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Dylid nodi na dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth bellach i ymhelaethu ar y farn hon.

Safonau hybu [143-144]

Cadarnhaodd Wallich-Clifford Community nad oedd yn cydsynio i safonau hybu fod yn gymwysadwy iddo.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Ystyriodd Wallich-Clifford Community y byddai gwneud y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Nid oedd Wallich-Clifford Community yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd bod Pwyllgor Cydymffurfio Iaith Gymraeg

y sefydliad o'r farn na fyddai'r wybodaeth yn medru cael ei gyhoeddi ar wefan y sefydliad gan ystyried ei fod yn cael ei reoleiddio gan sawl corff. Fodd bynnag, cadarnhaodd y byddai'n darparu'r wybodaeth berthnasol ar gais.

5 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd

Derbyniwyd 291 o ymatebion gan aelodau'r cyhoedd i'r ymchwiliadau safonau a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'r personau a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn. Derbyniwyd 155 o ymatebion i'r ymchwiliad safonau gan unigolion a ddewisodd gwblhau holiadur a ddarparwyd ar eu cyfer gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y wefan.

Derbyniwyd 136 ymateb pellach yn seiliedig ar dempled o ymateb safonol a gyhoeddodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg; yn yr achos hwn roedd yr holl ymatebion yr un fath. Mewn 14 o achosion derbyniwyd ymateb gan unigolion ddwywaith. Digwyddodd hyn gan fod unigolion wedi ymateb drwy gyfrwng ymgynghoriad y Comisiynydd yn ogystal â chwblhau templed Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Derbyniwyd 4 ymateb gan fudiadau neu sefydliadau eraill.⁶⁷ Mae'r Comisiynydd wedi rhoi sylw i bob ymateb a dderbyniwyd.

Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr a oedd yn fodlon i'w hymatebion gael eu cyhoeddi yn Atodiad B.

Mae Ffigur 1 yn dangos o ble daeth yr ymatebwyr yn ôl eu grŵp a'u lleoliad daearyddol.

Ffigur 1 Nifer yr ymatebion i'r ymchwiliad safonau yn ôl lleoliad⁶⁸

Lleoliadau	Nifer	Canran (%)
Abertawe	16	5%
Blaenau Gwent	1	0%
Bro Morgannwg	7	2%
Caerffili	5	2%
Casnewydd	0	0%
Castell-nedd Port Talbot	2	1%
Ceredigion	30	10%
Conwy	9	3%
Caerdydd	32	11%
Gwynedd	72	25%
Merthyr Tudful	3	1%
Pen-y-bont ar Ogwr	3	1%
Powys	9	3%
Rhondda Cynon Taf	13	4%
Sir Benfro	4	1%
Sir Ddinbych	22	8%

⁶⁷ Ceir rhestr o'r mudiadau/sefydliadau hynny yn Atodiad B yr adroddiad safonau.

⁶⁸ Mae'r ystadegau hyn yn cynnwys yr holl ymatebion a ddaeth drwy'r holiadur, ynghyd â templed Cymdeithas yr Iaith.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Sir Fynwy	2	1%
Sir Gâr	21	7%
Sir y Fflint	10	3%
Torfaen	1	0%
Wrecsam	4	1%
Ynys Môn	19	7%
Tu allan i Gymru	6	2%
Dim gwybodaeth	0	0%
Cyfanswm	291	100%

Ymateb y cyhoedd i'r ymchwiliad safonau a gynhelir mewn perthynas ac Atodlen 5 – Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm wrth y safonau cyflenwi gwasanaethau, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod fesul gweithgaredd yn yr holiadur:


A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw fod yn cynnal gweithgareddau safonau cyflenwi gwasanaethau yn Gymraeg, er mwyn eich galluogi chi fel aelod o'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd canlynol?

Wrth ateb y cwestiwn hwn yn rhan o'r holiadur, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd ymateb fesul gweithgaredd sydd o fewn cwmpas safonau cyflenwi gwasanaethau.

Mae Ffigur 2 yn dangos amrywiaeth yr ymatebion a gafwyd.

Ffigur 2 Ymateb i gwestiwn 1 yr holiadur – Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011



Safonau llunio polisi

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm â'r safonau llunio polisi, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai penderfyniadau polisi'r sefydliadau dan sylw wella'r cyfleoedd sydd i chi ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau gwell triniaeth i'r Gymraeg?

O'r 155 a ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan y Comisiynydd, roedd 95% (147) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 147 a ymatebodd, roedd 89% (131) yn cytuno y dylai'r personau perthnasol dan sylw ystyried effaith eu penderfyniadau polisi, gan sicrhau, neu gyfrannu at sicrhau, gwell cyfleoedd i bersonau allu defnyddio'r Gymraeg ynghyd â sicrhau gwell triniaeth i'r Gymraeg.

Dengys y ffigur isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:

Ffigur 3 Ymateb i gwestiwn 3 yr holiadur – Safonau llunio polisi⁶⁹

⁶⁹ Noder bod yr ystadegau hyn yn ymwneud â'r ymatebwyr a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn.

Safonau llunio polisi



Safonau gweithredu

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm â'r safonau gweithredu, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:


A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw orfod hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn unol â'r safonau gweithredu?

O'r 155 a ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan y Comisiynydd, roedd 94% (146) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 146 a ymatebodd, roedd 88% (128) yn cytuno y dylai'r personau perthnasol dan sylw orfod hwyluso a defnyddio'r Gymraeg yn unol â diffiniad safonau gweithredu ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Dengys y ffigur isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:

Ffigur 4 Ymateb i gwestiwn adran 4 yr holiadur – Safonau gweithredu⁷⁰

Safonau gweithredu



Safonau cadw cofnodion

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb y gofynion sydd ynghlwm â'r safonau cadw

⁷⁰ Noder bod yr ystadegau hyn yn ymwneud â'r ymatebwyr a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

cofnodion, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw gadw cofnod yn dweud sut y mae'n cadw at safonau'r Gymraeg a chadw cofnodion am gwynion?

O'r 155 a ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan y Comisiynydd, roedd 96% (148) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 148 a ymatebodd, roedd 88% (131) yn cytuno y dylai'r ddyletswydd hon gael ei gosod ar y personau perthnasol dan sylw.

Dengys y ffigur isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:

Ffigur 5 Ymateb i gwestiwn 5 yr holiadur – Safonau cadw cofnodion⁷¹



Sylwadau Pellach


Yn ogystal â darparu ymatebion i gwestiynau penodol ar bwnc yr ymchwiliad safonau, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd nodi unrhyw safonau ychwanegol y roeddynt o'r farn y dylid eu pennu a'u gwneud yn benodol gymwys i'r personau perthnasol dan sylw, ynghyd ag unrhyw sylwadau pellach a oedd yn berthnasol i'r ymchwiliad safonau hwn.

O'r 155 a ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan y Comisiynydd, darparodd 49% (76) ohonynt sylwadau ychwanegol i'w hystyried gan Gomisiynydd y Gymraeg yn rhan o'r ymchwiliad safonau.

Ffigur 6 Sylwadau pellach a ddarparwyd gan aelodau'r cyhoedd

⁷¹ Noder bod yr ystadegau hyn yn ymwneud â'r ymatebwyr a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011



6 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg

Derbyniwyd tystiolaeth gan y Panel Cyngori yn unol â'r gofynion a amlinellir yn adran 63 (3) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Panel yn dangos cefnogaeth i bwrpas y rheoliadau sef gwireddu amcanion sylfaenol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011: bod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn yr un modd â'r hyn a nodwyd yng nghyswllt y personau y cynhaliwyd ymchwiliadau safonau iddynt yng nghylch 1, roedd y Panel o'r farn y dylid ystyried rhesymoldeb a chymesuredd gwneud y safonau'n benodol gymwys i'r personau perthnasol ochr yn ochr â'r cyd-destun. Roedd hynny, yn eu tyb hwy, yn cynnwys bwriad y Ddeddfwriaeth a dymuniad y Ddeddfwriaeth o ran statws cyfreithiol y Gymraeg; maint y personau dan sylw; eu hymwneud â'r cyhoedd; a'r gwahaniaeth rhwng gosod safonau a'r amserlen ar gyfer cydymffurfio â'r safonau hynny.

Ategwyd at hynny gan nodi y gellir ystyried rhesymoldeb a chymesuredd mewn un o ddwy ffordd, sef; pennu safonau gwahanol i bersonau mewn ardaloedd gwahanol o Gymru gan adlewyrchu natur ieithyddol yr ardaloedd perthnasol neu bennu safonau cyffredin ar draws Cymru gan ddatgan diwrnodau gosod gwahanol ar gyfer pryd y bydd yn ofynnol iddynt orfod cydymffurfio â safon(au) e.e. pan fo angen elfen o hyfforddiant staff er mwyn cydymffurfio â safon, caniatáu rhagor o amser i berson gydymffurfio â safon na pherson lle mae adnoddau staff priodol ar gael eisoes. Roedd y Panel unwaith eto'n gryf o'r farn mai'r ail ddull yw'r mwyaf addas i Gomisiynydd y Gymraeg ei weithredu yn y mwyafrif o achosion, gan ystyried bod sicrhau gwell cysondeb rhwng personau o ran darparu gwasanaethau Cymraeg yn un o brif amcanion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Er hynny, derbyniwyd sylwadau gan y Panel ynglŷn â rhesymoldeb a chymesuredd gwneud y safonau'n benodol gymwys i bersonau sydd â'u pencadlys tu allan i Gymru, gan ei gwneud hi'n ofynnol iddynt gydymffurfio â hwy ar draws y DU. Pwysleisiwyd y dylid sicrhau bod unrhyw ofynion sy'n cael eu gosod ar bersonau tebyg yn nodi'r amgylchiadau hynny lle bydd disgwyl iddynt gydymffurfio â safon(au).

[Atodlen 5 \(5\): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol](#)

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Roedd y Panel o'r farn y dylid gwneud safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau yn benodol gymwys i'r personau perthnasol, gan alluogi aelodau o'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd dan sylw.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Wrth ddod i'r casgliad hwnnw, nododd y Panel ei fod o'r farn nad oedd unrhyw reswm na ddylai'r personau perthnasol allu cyflawni mwyafrif y gweithgareddau dan sylw a chydymffurfio â hwy, a thrwy hynny ymwneud â'r cyhoedd yn Gymraeg yn gynyddol. Er hynny, roedd y Panel o'r farn y dylid sicrhau ychydig o hyblygrwydd mewn perthynas â rhai gweithgareddau, gan dynnu sylw penodol at gynhyrchu a chyhoeddi dogfennau, derbyn ceisiadau am grant ynghyd â chyrsgiau. Pwysleisiwyd mai hyblygrwydd mewn sefyllfaoedd neu amgylchiadau eithriadol fyddai ei angen, gan dynnu sylw'n benodol at ddogfennau a fyddai'n gyfyngedig o ran pwnc a'r gynulleidfa darged tybiedig.

Yn yr un modd, roedd y Panel o'r farn y dylid rhoi ystyriaeth i leoliadau canolfannau neu swyddfeydd y personau dan sylw wrth gyflwyno hysbysiadau cydymffurfio. Ategwyd hynny gan nodi y byddai angen ystyried a fyddai'n rhesymol i bersonau o'r fath gydymffurfio â detholiad o'r safonau pan nad oes ganddynt bresenoldeb yng Nghymru. Pwysleisiwyd y cymalau perthnasol yn adran 44 (3) y Mesur fel modd i'r Comisiynydd allu goresgyn sefyllfaoedd cyffelyb.

Safonau llunio polisi

Croesawyd y safonau llunio polisi a bennwyd yn y rheoliadau drafft gan y Panel. Ategwyd hynny gan nodi y dylai'r safonau hyn gael eu gosod ar bob person y cynhelir ymchwiliad safonau mewn perthynas â hwy yng nghylch 2, gan bwysleisio pwysigrwydd cydymffurfiaeth â hwy ar bob lefel.

Roedd y Panel yn gytûn y dylai penderfyniadau polisi'r personau perthnasol wella'r cyfleoedd sydd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau gwell triniaeth i'r Gymraeg, ac y dylid gwneud safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddynt.

Safonau gweithredu

Roedd y Panel yn gytûn y dylai'r personau perthnasol orfod hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn unol â'r safonau gweithredu, ac y dylid gwneud safonau gweithredu'n benodol gymwys iddynt.

Safonau cadw cofnodion

Roedd y Panel yn unfryd o'r farn bod gwneud safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys i bersonau cylch 2 yn gwbl angenrheidiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gweddill y safonau y bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio â hwy.

Roedd y Panel yn gytûn y dylai'r personau perthnasol gadw cofnod yn dweud sut y maent yn cadw at safonau penodedig eraill, a chadw cofnodion o gwynion. Daethpwyd i'r casgliad y dylid gwneud safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddynt.

7 Casgliadau'r ymchwiliad safonau

Sylwadau cyffredinol

Daethpwyd i'r casgliadau isod ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y personau perthnasol, y cyhoedd a'r Panel Cyngori i bwnc yr ymchwiliad safonau, ynghyd â thystiolaeth annibynnol a gasglwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yng nghyd-destun cynlluniau iaith Gymraeg y personau perthnasol dan sylw.

Nodir ym Memorandwm Esboniadol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mai un o brif amcanion y ddeddfwriaeth oedd moderneiddio ac adeiladu ar y system o gynlluniau iaith Gymraeg a grëwyd o dan Ddeddf 1993. Yn yr un modd, nodir mai nod Llywodraeth Cymru wrth ddeddfu oedd sicrhau gwell cysondeb rhwng personau, yn enwedig rhwng personau yn yr un sector, o ran darparu gwasanaethau Cymraeg.

Yn yr un modd, nodir bod adran 42 y Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau'n darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau a bennir yn Atodlen 9 yn benodol gymwys i berson os yw'r person, ac i'r graddau y mae'r person, yn gwneud y gweithgareddau hynny.

Er hynny, dylid nodi nad oes rhaid iddynt wneud hynny os yw'r Comisiynydd yn nodi mewn adroddiad safonau, neu os yw Gweinidogion Cymru o'r farn, y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw. Dylid nodi nad yw'r adran hon yn y Mesur yn atal rheoliadau o dan adran 39 rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

Yn unol â'r uchod, os amlygwyd drwy'r ymchwiliad safonau bod person yn gwneud y gweithgaredd⁷², boed hynny i raddau mwy neu lai, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r holl safonau mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw gael eu gwneud yn benodol gymwys iddo. Daethpwyd i'r casgliadau hynny gan fod y safonau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn gyd-ddibynnol ar ei gilydd o fewn cwmpas gweithgaredd.

Nodir hefyd y gall y modd y cyflenwir gwasanaeth mewn perthynas â gweithgaredd newid yn y dyfodol ac y byddai angen addasu i adlewyrchu hynny drwy amrywio'r hysbysiad cydymffurfio, yn hytrach na mynd yn ôl at reoliadau.

Er hynny, lle ceir tystiolaeth nad yw person yn gwneud gweithgaredd o gwbl, boed hynny drwy dystiolaeth a ddaw yn rhan o'r ymchwiliad safonau, neu drwy ddulliau eraill, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad na ddylai safonau o dan y gweithgaredd hwnnw fod yn benodol gymwys iddynt, oni bai bod rhesymau dilys dros wneud hynny.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd er mwyn dod i farn ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

⁷² Gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau fel y'i diffinnir yn adran 28 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Eglurwyd uchod, yn adran 2 yr adroddiad hwn, mai pwnc yr ymchwiliad safonau hwn oedd dyfarnu:

- a ddylai'r personau fod yn agored i gydymffurfio â safonau;
- os yw'r personau'n dod o fewn Atodlen 6, dyfarnu pa safonau (os o gwbl) a ddylai fod yn gymwysadwy i bob person perthnasol a ddaw o fewn y grŵp;
- pa safonau (os o gwbl) a ddylai fod yn benodol gymwys i bersonau (p'un a yw'r safonau eisoes wedi eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1) ai peidio).

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniwyd, ac o gymryd amcanion y Mesur fel y'u hamlinellwyd uchod i ystyriaeth, casgliad Comisiynydd y Gymraeg yw y dylai'r personau yma yr ymddengys i'r Comisiynydd eu bod yn aelodau o'r grŵp Atodlen 5 (5) - Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – fod yn agored i gydymffurfio â safonau.

Barn y Comisiynydd, yn seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniwyd, a chyda'r bwriad o sicrhau cysondeb â phersonau eraill a enwir yn Atodlen 6 y Mesur, yw y dylai'r safonau canlynol fod yn gymwysadwy i bob person o fewn yr adroddiad safonau hwn:

- Safonau cyflenwi gwasanaethau
- Safonau llunio polisi
- Safonau gweithredu
- Safonau cadw cofnodion.

Safonau y dylid eu gwneud yn benodol gymwys i'r personau a ddaw o fewn yr adroddiad Atodlen 5 (5) – Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r personau a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn allu cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau perthnasol.

Unwaith eto, dymuna'r Comisiynydd nodi pwysigrwydd gwahaniaethu'n glir rhwng ymrwymadau person (yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt) a pherfformiad (i ba raddau maent yn cydymffurfio â'r disgwyliadau hynny ar hyn o bryd). Mae pob cynllun iaith Gymraeg yn dwyn awdurdod llawn y person wrth ddod i gytundeb ar gynnwys. Byddai peidio â phennu safonau sy'n gydradd, a'u gwneud yn benodol gymwys i'r personau dan sylw yn gam yn ôl ac yn groes i fwriad Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Nodir bod perfformiad, ynghyd ag i ba raddau y gall person gydymffurfio â safon ar gyfnod amser penodol, yn fater ymarferol. Gall y graddau hynny wella, waethygu neu aros yr un fath. Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn y dylai ymrwymadau ddiwallu anghenion defnyddwyr y Gymraeg y maent yn eu gwasanaethu, gydag amserlen resymol wedi ei phennu ar gyfer delio ag unrhyw rwystrau sy'n bodoli. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y rhwystrau hynny wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a gyflwynir o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cydnabyddir i bersonau adnabod heriau a rhwystrau posibl i gydymffurfiaeth lawn â rhai o'r safonau cyflenwi gwasanaeth. Serch hynny, nid oedd y materion a godwyd ar y cyfan yn perthyn i'r holl safonau a oedd yn gysylltiedig â gweithgaredd penodol. Mae'r Comisiynydd o'r farn y gellid cwrdd ag ymrwymadau sy'n gymesur ag anghenion defnyddwyr y Gymraeg gydag amserlen resymol ar gyfer gweithredu ac ymdrin ag unrhyw heriau.

Derbyniwyd tystiolaeth gan bersonau o fewn yr adroddiadau safonau hwn oedd yn mynegi pryder ynglŷn â rhesymoldeb cydymffurfio â'r gofynion, a hynny'n seiliedig ar y ffaith eu bod yn gweithredu ar draws y Deyrnas Unedig. Dylid nodi bod adran 44 y Mesur yn darparu fframwaith hyblyg i Gomisiynydd y Gymraeg benderfynu ar yr hyn sydd yn ofynnol i berson gydymffurfio ag ef o fewn hysbysiad cydymffurfio.

Casgliad 1: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn:

- gohebiaeth a anfonir gan gorff
- galwadau ffôn i gorff a chan gorff
- cyfarfodydd a drefnir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol
- cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
- digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff
- cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
- arddangos deunydd yn gyhoeddus
- corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau
- corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni
- arwyddion a arddangosir gan gorff
- gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
- derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff
- hunaniaeth gorfforaethol corff.

Nododd 3 pherson perthnasol (Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol, Leonard Cheshire Disability a Wallich-Clifford Community) nad oeddent yn dyfarnu grantiau ar hyn o bryd. Ni dderbyniwyd tystiolaeth bellach i amlygu a oedd hynny oherwydd eu cyfansoddiadau, neu'n hytrach oherwydd nad oedd yn weithgaredd arferol. Rhoddir sylw dyledus i achosion unigol wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a gyflwynir o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Casgliad 2: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn, i'r graddau bod y pŵer a'r swyddogaeth gan y personau i wneud hynny:

○ **corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant**

Nododd 3 pherson perthnasol (CAG Cymru, Leonard Cheshire Disability, a Wallich-Clifford Community) nad oeddent yn dyfarnu ar dendrau am gontract. Yn ogystal, nododd 1 person perthnasol (Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol) nad oedd yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Er yr uchod, cred Comisiynydd y Gymraeg ei bod hi'n rhesymol i gasglu bod cytundebau a chontractau mewn lle gan bersonau o'r math hwn, a hynny er mwyn cynorthwyo ei gweinyddiad hwy.

Rhoddir sylw dyledus i'r achosion yma wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiad cydymffurfio a gyflwynir o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Casgliad 3: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn:

○ **corff yn dyfarnu ar geisiadau ar dendrau am gontract**

Nododd 1 person perthnasol (Wallich-Clifford Community) nad yw'n codi ymwybyddiaeth ynghylch y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan y corff. Fel y nodir eisoes, un o brif amcanion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 oedd moderneiddio ac adeiladu ar y system o gynlluniau iaith Gymraeg a grëwyd o dan Ddeddf 1993. Er nad yw'r corff dan sylw yn gweithredu cynllun iaith Gymraeg o dan y drefn bresennol, dylid nodi bod Deddf 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd personau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun, ac nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth. Byddai felly yn gam yn ôl pe na fyddai'r safon gyfatebol yn cael ei wneud yn benodol gymwys i bob person a ddaw o dan y drefn safonau.

Casgliad 4: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn:

○ **codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff**

Nododd 2 berson perthnasol (Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol a Wallich-Clifford Community) nad ydynt yn gwneud hysbysiadau swyddogol. Noda'r rheoliadau drafft mai

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

diffiniad hysbysiad swyddogol yw “unrhyw hysbysiad y mae corff yn ei gyhoeddi er mwyn rhoi gwybod i bersonau am weithgareddau cyflenwi gwasanaethau neu newidiadau i weithgareddau cyflenwi gwasanaethau'r corff”⁷³. At hynny, oherwydd natur a swyddogaethau'r personau dan sylw, ynghyd â'u nod a'u hamcanion, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y gall hwn fod yn weithgaredd perthnasol i'r personau hyn.

Casgliad 5: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn:

○ corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol

Nododd 5 person perthnasol (Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth, Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol, Hafal, Leonard Cheshire Disability, a Wallich-Clifford Community) nad oeddent yn darparu cyrsiau i'r cyhoedd ar hyn o bryd. Nododd Gofal Cymru nad oeddent yn darparu cyrsiau yn Gymraeg ar hyn o bryd oherwydd nad yw eu hyfforddwy'r cyfredol yn medru'r Gymraeg.

Oherwydd natur a swyddogaethau'r personau dan sylw, ynghyd â'u nod a'u hamcanion, yn ogystal â gwaith ymchwil annibynnol y Comisiynydd, daw i'r casgliad y gall hwn fod yn weithgaredd perthnasol i'r personau hyn.

Ymddengys bod aneglurder wedi bod ymysg y personau perthnasol ynghylch union ddiffiniad 'cwrs addysg'. Noda'r rheoliadau drafft mai cwrs addysg yw:

unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu neu ei darparu ar gyfer addysgu neu wella sgiliau aelodau o'r cyhoedd; ond nid yw'n cynnwys gweithgareddau na chysiau sy'n cael eu darparu fel rhan o'r cwricwlwm yn unol ag unrhyw ddeddfiad.⁷⁴

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried yr amgylchiadau hyn ymhellach wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Casgliad 6: Ar sail y diffiniad presennol o'r rheoliadau, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn:

○ cyrsiau a ddarperir gan gorff

Nododd bob person perthnasol dan sylw nad oedd yn defnyddio systemau annerch cyhoeddus. Yn achos Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth, bu hynny am ei fod yn denant yn ei swyddfeydd presennol. At hynny, gan fod nifer o bersonau yn yr

⁷³ Paragraff 35, Rhan 3, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Gweinidogion Cymru, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) 2015.

⁷⁴ Paragraff 37, Rhan 3, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Gweinidogion Cymru, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) 2015.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

adroddiad hwn yn gweithredu tu allan i Gymru yn ogystal, nid oedd yn eglur a yw hynny am nad yw'n digwydd o gwbl ynteu am ei fod yn digwydd y tu allan i Gymru yn unig.

Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn y gall personau ymgymryd â gweithgareddau cyflenwi gwasanaethau eraill y mae'n debygol y byddai systemau annerch cyhoeddus yn gysylltiedig â hwy: er enghraifft cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd, neu ddigwyddiadau cyhoeddus. O'r herwydd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y gall hwn fod yn weithgaredd perthnasol i'r holl bersonau yn yr adroddiad hwn.

Casgliad 7: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn:

- systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff

Safonau llunio polisi

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai penderfyniadau polisi personau a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn wella'r cyfleodd sydd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rhesymau'r Comisiynydd dros ddod i'r casgliad hwn yw bod eisoes disgwyl i bersonau asesu goblygiadau ieithyddol polisiâu a mentrau newydd yn ystod y broses o'u creu a'u hadolygu. Cadarnhawyd hyn oll yn y dystiolaeth a dderbyniwyd yn rhan o'r ymchwiliad safonau hwn.

Ymhellach, roedd pob person o fewn yr adroddiad safonau hwn wedi cytuno y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddynt, neu eu bod yn medru cydymffurfio yn rhannol â'r safonau dan sylw, neu eisoes wedi ymrwymo mewn modd cyfatebol i'r safonau dan sylw yn rhannol neu'n llawn yn eu cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol.

Mae'r mesurau gofynnol sy'n sail ar gyfer cynnwys cynlluniau iaith Gymraeg i'w gweld ar ffurf canllawiau statudol a gymeradwywyd gerbron Tŷ'r Cyffredin (pasiwyd Canllawiau ar Ffurf a Chynnwys Cynlluniau Iaith gan Senedd y DU ar 19 Gorffennaf 1995). Nodir yn y canllawiau hynny y dylai personau orfod pennu mesurau y bwriedir eu cymryd wrth asesu effaith polisiâu, strategaethau a mentrau newydd a'u gweithredu.

Casgliad 8: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau llunio polisi fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn.

Safonau gweithredu

Noda adran 30 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mai ystyr safon gweithredu yw:

- safon y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg
- (i) gan A wrth i A wneud ei weithgareddau perthnasol,
 - (ii) gan A a pherson arall wrth iddynt ddelio â'i gilydd mewn cysylltiad â gweithgareddau perthnasol A, neu
 - (iii) gan berson heblaw A wrth iddo wneud gweithgareddau at ddibenion gweithgareddau perthnasol A, neu mewn cysylltiad â hwy.

Golyga hynny mai diben y safonau gweithredu yw sicrhau bod aelod o staff yn cael defnyddio'r Gymraeg wrth wneud ei weithgareddau perthnasol gydag eraill. Gall hynny olygu â'r cyhoedd yng Nghymru, neu â pherson perthnasol arall. Drwy'r safonau yma, fe sicheir bod sgiliau iaith staff yn ddigonol er mwyn i unigolion sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg â'r person hwnnw allu gwneud hynny. Dylid pwysleisio bod yr amcan hwnnw'r un mor briodol i bersonau sydd wedi eu lleoli mewn mannau eraill o'r DU, ond sydd yn cyflenwi gwasanaethau i Gymru, ag y mae i bersonau sydd wedi eu lleoli yng Nghymru. Caiff yr uchod ei ategu gan y ffaith bod Atodlen 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn nodi bod safonau gweithredu yn gymwysadwy i'r holl bersonau.

Noda Comisiynydd y Gymraeg fod pob person o fewn yr adroddiad safonau hwn wedi ei lleoli yng Nghymru.

Ar 24 Mawrth 2015, cymeradwywyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd y rheoliadau hyn eu datblygu i osod dyletswyddau ar gynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau sir, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru. Lleolir yr holl bersonau hynny yng Nghymru. Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod safonau gweithredu y caiff eu pennu mewn rheoliadau ar gyfer cylch 2 yn cyflawni'r un amcanion a nodir uchod, gan gydnabod nad yw rhai personau wedi eu lleoli yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cydnabod bod rhai elfennau ynghlwm wrth y safonau gweithredu yn newydd i nifer o'r personau perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn. I'r un perwyl, derbyniwyd rhai enghreifftiau lle nad oes trefniadau mewn lle er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r gofynion ar hyn o bryd. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried hynny ymhellach wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Er yr uchod, dylid nodi bod nifer o'r gofynion yn bethau sy'n ddisgwyliedig i nifer o bersonau eu gwneud o dan gynlluniau iaith Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys pennu mesurau i sicrhau bod gweithleoedd sydd â chyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru yn ceisio cael digon o siaradwyr Gymraeg sydd â'r sgiliau priodol; mesurau i glustnodi'r swyddi hynny lle ystyrir bod y gallu i siarad Gymraeg yn hanfodol a'r rhai lle ystyrir ei fod yn ddymunol; ynghyd â mesurau i asesu'r angen am hyfforddiant a'i ddarparu i gyflogaion.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

I'r perwyl hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw'r Comisiynydd i'r casgliad ei bod hi'n rhesymol a chymesur i'r personau hyn alluogi eu gweithwyr i wneud eu gweithgareddau perthnasol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gyda'r elfennau hynny nad ydynt wedi eu gwreiddio yn eu cynllun iaith Gymraeg, neu'n weithredol ar hyn o bryd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y byddai caniatáu amser digonol iddynt ymgynraedd at y nod polisi newydd hwn, yn ogystal â chynnwys mesurau lleddfu eraill mewn hysbysiadau cydymffurfio, lle bo'n briodol, yn rhesymol a chymesur.

Daw'r Comisiynydd i'r un casgliadau ar gyfer y sefydliadau hynny sydd wedi nodi nad oes ganddynt staff sy'n medru'r Gymraeg ar hyn o bryd, a hynny er mwyn eu galluogi hwy i weithredu'r dosbarthiadau eraill o safonau.

Casgliad 9: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau gweithredu mewn perthynas â'r materion isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn:

- Safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff
- Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff
- Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff
- Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd
- Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu
- Safonau ynghylch recriwtio gan gorff
- Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff
- Safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.

Safonau cadw cofnodion

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r personau a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn gadw cofnod yn dweud sut y maent yn cadw at y safonau y disgwyllir iddynt gydymffurfio â hwy, ynghyd â chwynion. Mae'n ofynnol o dan gynlluniau iaith Gymraeg i'r personau perthnasol dan sylw bennu camau sydd i'w cymryd i gyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad yn erbyn y gofynion statudol. Cadarnhawyd hynny yn y dystiolaeth a dderbyniwyd, â phob person eisoes yn cydymffurfio â gofynion y safonau dan sylw (naill ai'n rhannol neu'n llawn), yn eu hystyried yn rhesymol a chymesur, neu eisoes wedi ymrwymo yn rhannol mewn modd cyfatebol i'r safonau dan sylw yn eu cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol.

Casgliad 10: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cadw cofnodion fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn.

Safonau hybu

Leonard Cheshire Disability yn unig a nododd ei fod yn dymuno cydsynio i safonau hybu fod yn gymwysadwy iddo.

Casgliad 11: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau hybu fod yn benodol gymwys i Leonard Cheshire Disability.

Safonau yn ymdrin â materion atodol

Ceir darpariaethau yn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n ymwneud â threfniadau monitro a gofynion adrodd ar gyfer y gyfundrefn safonau (Adran 27 – Darpariaethau Atodol). Yn dilyn cymeradwyo Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015⁷⁵ yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Mawrth 2015, pennwyd safonau sy'n ymdrin â materion atodol o dan adran 26 y Mesur.

Noda Comisiynydd y Gymraeg ei bod hi'n ofynnol o dan gynlluniau iaith Gymraeg i bennu camau sydd i'w cymryd i gyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad y person yn erbyn y gofynion statudol.

Mae dogfen polisi Llywodraeth Cymru, 'Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio'⁷⁶, yn egluro mai rôl arolygwyr yw 'gwirio'n annibynnol gan ddefnyddio arbenigedd proffesiynol a phŵer cyfreithiol'. Caiff hynny ei ategu gan Adroddiad Crerar ar arolygu yn yr Alban sy'n nodi mai rôl arolygwyr allanol yw darparu sicrwydd annibynnol fod gwasanaethau'n cael eu rheoli'n dda ac yn addas i bwrpas. Yn ôl Crerar, pum prif egwyddor arolygu yw'r angen i ganolbwyntio ar y cyhoedd; annibyniaeth; cymesuredd; tryloywder ac atebolrwydd. Mae cynigion Crerar yn gyson ag egwyddorion Hampton sy'n nodi y dylai arolygu ddigwydd ar sail risg; na ddylid cynnal arolygon heb reswm ac y dylai rheoleiddwyr allu rhoi cyngor awdurdodol a hygyrch. Yn yr un modd, ceir cydnabyddiaeth hefyd nad oes modd i gyrff arolygu oruchwylio popeth y mae darparwyr gwasanaethau yn ei wneud. Hynny yw, mae disgwyliad cynyddol ar ddarparwyr gwasanaeth i gael trefniadau craffu ac archwilio mewnol cadarn. Ymhellach i hynny, mae hunan asesu yn chwarae rhan gynyddol bwysig mewn trefniadau arolygu allanol.

Casgliad 12: Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau, ac wrth ystyried yr uchod, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru wneud y safonau sy'n ymdrin â materion atodol yn benodol gymwys i'r holl bersonau perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn.

⁷⁵ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

⁷⁶ <http://gov.wales/docs/dpsp/publications/inspectionpolicystatement/090930inspstatementcy.pdf>

Safonau ychwanegol y dylid eu pennu a'u gwneud yn benodol gymwys i'r personau a ddaw o fewn adroddiad safonau Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol

Nodir yr isod yn adran 64 (3) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011:

Os -

- (a) casgliadau'r ymchwiliad safonau (boed yn llwyr neu'n rhannol) yw y dylai safonau fod yn benodol gymwys i berson, a
- (b) nad yw unrhyw un neu ragor neu'r oll o'r safonau hynny wedi ei phennu neu eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1), rhaid i'r adroddiad safonau nodi'r safonau sydd heb eu pennu.

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylid pennu safonau ychwanegol i'r rhai a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 7 Tachwedd 2014. Daethpwyd i'r farn hon yn dilyn derbyn tystiolaeth gan y cyhoedd a'r personau perthnasol yn rhan o'r ymchwiliad safonau.

Gweithgareddau: cyfryngau cymdeithasol; peiriannau hunanwasanaeth

Ers i gyfnod yr ymchwiliad safonau ddirwyn i ben, gosodwyd fersiwn ddrafft o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) (Cymru) 2015 yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mawrth 2015. Derbyniodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'r Rheoliadau hyn yng Nghyfarfod Llawn 24 Mawrth 2015. Gwelwyd safonau cyflenwi gwasanaeth ynghylch defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â pheiriannau hunanwasanaeth yn ychwanegol i'r ystod o weithgareddau a oedd yn destun yr ymchwiliad safonau hwn. Safonau 58, 59, a 60 yw'r safonau hyn ymhlith Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) (Cymru) 2015⁷⁷.

Casgliad 13: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn, pe bai Gweinidogion Cymru o'r farn bod y gweithgareddau isod yn rhai gallasai'r personau fod yn ymgymryd â nhw ar hyn o bryd, neu yn y dyfodol:

- defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol
- peiriannau hunanwasanaeth.

8 Y camau nesaf

Wrth ddarparu'r adroddiad safonau hwn, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ystyried yr holl ymatebion a gyflwynwyd i'r ymchwiliad safonau. Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i'r isod yn unol ag adran 64 (4) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011:

- pob person perthnasol
- Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg
- pob person a gymerodd ran yn ymgyngoriad y Comisiynydd yn unol ag adran 63;
- Gweinidogion Cymru.

Ochr yn ochr ag ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg, disgwylir i Weinidogion Cymru gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth berthnasol y maent yn bwriadu ei gwneud, gan ddefnyddio eu pwerau is-ddeddfwriaethol eu hunain.

Noda Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mai asesiad effaith rheoleiddiol yw'r isod:

A regulatory impact assessment is an assessment as to the likely costs and benefits of complying with relevant Welsh subordinate legislation.⁷⁸

Yn hyn o beth, gall asesiad effaith rheoleiddiol gael ei ystyried:

- yn broses i helpu Gweinidogion Cymru ystyried effaith y rheoliad ar fuddiannau unigolion, grwpiau, personau ac ati
- yn gyfrwng i alluogi Gweinidogion Cymru i bwysu a mesur costau a manteision yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt cyn gweithredu polisi; ac
- yn fodd o gyflwyno'r dystiolaeth berthnasol ar effeithiau cadarnhaol a negyddol ymyriadau o'r fath at ddibenion craffu ar y dystiolaeth honno.⁷⁹

Bydd disgwyl i Weinidogion Cymru ystyried y dystiolaeth a gasglwyd ganddynt at ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol, ochr yn ochr â chasgliadau Comisiynydd y Gymraeg mewn adroddiad safonau wrth benderfynu a ddylent arfer y pwerau sydd wedi eu rhoi iddynt o dan Ran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ai peidio.

Cadarnhaodd Y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru mewn datganiad ar 24 Mawrth 2015 y rhagwelir ar hyn o bryd y cychwynnir ar y broses o gyflwyno rheoliadau ar gyfer y personau perthnasol a nodir yn yr adroddiad hwn erbyn diwedd 2015, â dadl a phleidlais ar gymeradwyo'r rheoliadau yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad Cenedlaethol.

⁷⁸ Adran 76(2)(a) Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

⁷⁹ <http://wales.gov.uk/docs/legislation/guidance/091020riacodecy.doc>

Atodiad A – Sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd gan y cyhoedd ar ymchwiliadau safonau cylch 2

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn gyffredinol gefnogol i'r cysyniad o bennu safonau, a hynny er mwyn sicrhau hawliau clir i siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan yr holl sefydliadau sydd wedi eu cynnwys yng nghylch 2.

Mynegwyd cryn awydd unwaith eto gan y cyhoedd i sicrhau bod y safonau a gaiff eu pennu yn rhai sy'n glir, cadarn a dealladwy i bobl gyffredin. Ategwyd at hynny gan nodi mai drwy hynny'n unig y sicrheir y caiff hawliau siaradwyr Cymraeg eu diogelu.

Amlinellir isod brif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd o blaid gwneud y safonau'n benodol gymwys :

- Yr angen am sicrhau bod y safonau a bennir yn adlewyrchu'n llawn argymhellion Ymholiad Iechyd Comisiynydd y Gymraeg.
- Yr angen i sicrhau bod safonau yn sicrhau darpariaeth o wasanaethau Cymraeg yn ddiofyn, gan sicrhau bod y cysyniad o gynnig rhagweithiol yn gyson drwyddi draw.
- Sicrhau nad yw'r broses o ddyfarnu neu ddelio â thendr neu gontract uwchlaw'r angen am osod amodau iaith Gymraeg ar y grantiau/contractau a ddosberthir gan sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yng nghylch 2.
- Yr angen i sicrhau bod safonau mewn perthynas â gwasanaeth wyneb-yn-wyneb yn mynd tu hwnt i brif dderbynfeydd a chyfarfodydd personol sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw.
- Yr angen i sicrhau eglurder bod y diffiniad o gyfarfodydd personol yn cynnwys pob cyswllt wyneb-yn-wyneb
- Yr angen i bennu safon sydd yn gosod gofynion clir ar bolisïau recriwtio sefydliadau.

Derbyniwyd rhai ymatebion gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn mynegi gwrthwynebiad cyffredinol i ddyletswyddau iaith.

Amlinellir prif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn erbyn gwneud y safonau'n benodol gymwys isod:

- Yr angen i ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, a'r modd y caiff arian cyhoeddus ei wario ar y Gymraeg
- Blaenoriaethu meysydd polisi eraill dros y Gymraeg
- Perthnasedd y Gymraeg yng Nghymru
- Anghytuno â'r gofyniad y dylai'r Gymraeg ymddangos neu gael ei chyhoeddi'n

gyntaf.

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Derbyniwyd sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd oedd yn galw am yr angen i sicrhau y caiff safonau penodol eu pennu ar gyfer y cyrff iechyd sydd yn adlewyrchu canfyddiadau Comisiynydd y Gymraeg yn yr adroddiad 'Fy Iaith, Fy Iechyd: Ymholiad Comisiynydd y Gymraeg i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol'. Ategwyd hynny drwy nodi y dylid pennu safonau mewn perthynas â chontractau cenedlaethol â meddygon teulu a darparwyr gofal sylfaenol.

Derbyniwyd sylwadau oedd yn nodi bod gwendid anfwriadol, yn eu tyb hwy, yn y rheoliadau drafft, a hynny oherwydd nad yw'r safonau mewn perthynas â derbyn gwasanaeth Cymraeg wyneb-yn-wyneb yn mynd y tu hwnt i gyfarfodydd personol sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw a gwasanaeth mewn prif dderbynfeydd. Yn yr un modd, nodwyd ei bod hi'n hollbwysig bod rheoliadau mewn perthynas â chyrff iechyd yn pennu safonau cyfarfodydd personol sy'n cwmpasu apwyntiadau, ymgynghoriadau a phob cyswllt wyneb- yn-wyneb arall o'r fath.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyfarfodydd personol yn y maes iechyd, y maes addysg a'r maes cyfiawnder, gan dynnu sylw at y ffaith nad oeddynt o'r farn y byddai'r rheoliadau drafft yn sicrhau darpariaeth Gymraeg wyneb-yn-wyneb y tu hwnt i gyfarfodydd personol ac mewn derbynfeydd. Ategwyd at hynny gan nodi y dylid ymestyn y diffiniad i gyd-destunau amrywiol eraill.

Derbyniwyd nifer o ymatebion a oedd yn cefnogi'r safonau mewn perthynas â chyfarfodydd nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol, a hynny gan gofio bod nifer o sefydliadau yn y maes cyfiawnder wedi eu cynnwys yng nghylch 2. Er bod y safonau'n cyfeirio at fuddiant neu lesiant personol, mynegwyd pryder gan rai nad oedd hi'n gwbl eglur a fyddai hynny'n cwmpasu hawl person i gael ei gyfweld yn Gymraeg yn y cyd-destun uchod.

Yng nghyd-destun arwyddion, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid sicrhau bod arwyddion electronig ac arddangosfeydd clywedol mewn lleoedd megis amgueddfeydd yn cael eu cwmpasu o fewn diffiniad y gweithgaredd hwn. Yn yr un modd, nodwyd y dylai uwchdeitlau ac is-deitlau mewn dramâu a pherfformiadau fod o fewn y diffiniad o arwyddion hefyd, gyda golwg ar osod safonau ar bersonau megis y Theatr Genedlaethol ac Opera Cenedlaethol Cymru.

Mewn cysylltiad â'r safonau yn ymwneud â chyrsgiau, pwysleisiodd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd hyfforddiant proffesiynol ym maes iechyd ynghyd â sectorau eraill, a'r angen i bennu safonau a fyddai'n gwarantu cyrsiau datblygiad proffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â hynny, mynegwyd pryder ynglŷn ag eglurder y diffiniad o gyrsiau, a'r perygl y gellid gweld cyrsiau sy'n agored i'r cyhoedd fel rhai ar gyfer aelodau o'r cyrff neu sy'n cael eu rheoli gan y cyrff yn unig. Nododd un ymatebwr bwysigrwydd y safonau yn mewn perthynas â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Wrth ymateb i'r safonau mewn perthynas â dyfarnu ar geisiadau am grant, cyfeiriodd nifer o unigolion at bwysigrwydd pennu safonau a fyddai'n sicrhau bod amodau iaith Gymraeg

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

yn cael eu gosod ar y grantiau a ddosberthir gan y sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yng nghylch 2. Rhoddwyd pwyslais ar gyrff megis Chwaraeon Cymru, Cyngor y Celfyddydau a'r Gronfa Loteri Fawr, gan nodi eu bod yn sefydliadau lle mae dosbarthiad grantiau yn hollbwysig o ran cynyddu defnydd a darpariaeth Gymraeg.

I'r un perwyl, nododd rhai ymatebwyr y dylid pennu safon ychwanegol mewn perthynas â dyfarnu ar dendrau am gontract, gyda golwg ar sicrhau bod cwmnïau cynhyrchu annibynnol sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau ar ran S4C hefyd yn dod o dan ddyletswyddau i symud tuag at ddefnydd mewnol o'r Gymraeg yn eu gweithgareddau dan gontract i'r Sianel Gymraeg.

Mynegwyd pryderon gan nifer o aelodau o'r cyhoedd nad oedd safon wedi ei phennu yn y rheoliadau drafft ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Ategwyd hynny gan nodi bod y cyn-Weinidog Llywodraeth Leol wedi datgan y byddai safonau yn ymwneud â'r broses penodiadau cyhoeddus er mwyn gosod trothwyon ar gyfer y nifer o siaradwyr Cymraeg.

Wrth ystyried y safonau mewn perthynas â hysbysiadau swyddogol, nododd nifer o ymatebwyr y dylid sicrhau bod y safonau hynny'n cael eu gwneud yn benodol gymwys i bob sefydliad sydd wedi eu cynnwys yn y cylch hwn. Ategwyd hynny gan un ymatebwr a nododd y dylid sicrhau bod presgripsiynau yn cael eu cwmpasu o fewn diffiniad y gweithgaredd hwn. Er hynny, derbyniwyd rhai sylwadau oedd yn cwestiynu priodoldeb cyhoeddi hysbysiadau ar bynciau arbenigol yn y ddwy iaith, gan fynd ymlaen i gwestiynu'r angen i gyhoeddi hysbysiad swyddogol o gwbl yn yr achosion hynny.

Nododd un ymatebwr y dylai'r safonau mewn perthynas â chorfforaethau addysg (bellach ac uwch) ei gwneud hi'n ofynnol iddynt ymrwmo i ddarpariaeth addysgol, drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog, gan ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain, yn ogystal â'r adnoddau a dderbynnir drwy ffrydiau allanol. Ategwyd hynny gan nodi y dylai'r gyrff dan sylw hefyd ysgogi galw gan fyfyrwyr, yn ogystal ag ymateb iddo. Nodir yr isod yn 'Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015'⁸⁰:

At ddibenion safonau 84, 85 a 86 (cyrsiau), ystyr —cwrw addysg yw unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu neu ei darparu ar gyfer addysgu neu wella sgiliau aelodau o'r cyhoedd; ond nid yw'n cynnwys gweithgareddau na chyrtsiau sy'n cael eu darparu fel rhan o'r cwricwlwm yn unol ag unrhyw ddeddfiad.

Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau eglurder ar yr uchod wrth bennu safonau, a'u gwneud yn benodol gymwys i gorfforaethau addysg bellach ac uwch mewn rheoliadau.

Safonau Ilunio polisi

Cyfeiriodd un ymatebwr at bwysigrwydd gosod y safonau uchod ar bob sefydliad yng nghylch 2, gan ystyried mai'r polisiâu sy'n sail i'w holl weithredoedd. Cyfeiriodd ymatebwr arall yn benodol at sefydliadau megis y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, Chwaraeon Cymru, Canolfan y Mileniwm ynghyd â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gan nodi y dylent roi mwy o ystyriaeth i'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi.

80 Paragraff 37, Rhan 3, Atodlen 1, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Gweinidogion Cymru, Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) 2015

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

I'r un perwyl, cyfeiriodd un ymatebwr at bwysigrwydd gwneud y safonau llunio polisi yn benodol gymwys i'r Comisiynwyr a enwir yng nghylch 2, gan nodi bod nifer o adroddiadau ganddynt lle nad oes sôn am y Gymraeg o gwbl, a hynny mewn meysydd lle bo hawliau ieithyddol yn cael eu tramgwyddo yn gyson.

Derbyniwyd sylwadau penodol mewn perthynas â'r Swyddfa Gyfathrebiadau, gan nodi ei rôl hollbwysig wrth ddyfarnu trwyddedau radio a theledu. Gyda hynny mewn golwg, roedd yr ymatebwr dan sylw o'r farn y dylid pennu safon sydd yn gosod amodau iaith ar drwyddedau o dan y safonau llunio polisi neu'r safonau mewn perthynas â dyfarnu contractau.

O'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd, bu cyfeiriadau at nifer o'r cyrff rheoleiddio proffesiynau yng nghylch 2, gan nodi y dylid sicrhau y caiff safonau eu pennu ar eu cyfer a fydd yn arwain at well cynllunio gweithlu ar gyfer dibenion Cymru ddwyieithog.

Mynegwyd pryder gan un ymatebwr ynglŷn â chyfyngder effeithiolrwydd y safonau llunio polisi y bwriedir eu pennu. Ategwyd at hynny drwy nodi nad oes llawer o bolisiau'n gallu bodoli ar lefel leol yn unig, ac y dylent fod yn rhan o gyd-destun ehangach, yn aml yn genedlaethol.

Safonau gweithredu

Pwysleisiwyd pwysigrwydd rôl sefydliadau megis Amgueddfa Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru, S4C, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru o ran cyfrannu at y Gymraeg fel iaith gwaith gan un ymatebwr. Nododd y dylai'r sefydliadau dan sylw, ymysg eraill, fod yn rhai sydd yn gweithio tuag at weinyddu'n fewnol yn Gymraeg. O'r herwydd, roedd o'r farn y dylid pennu safonau gweithredu ychwanegol at y rhai yn y rheoliadau drafft a fyddai'n galluogi'r sefydliadau hyn, ymysg eraill, i weithio tuag at y nod hwnnw.

Yn yr un modd, roedd nifer o'r farn y dylid pennu safonau haen uwch mewn perthynas â recriwtio, gan ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliadau sydd eisoes yn gweinyddu drwy gyfrwng y Gymraeg recriwtio staff sy'n medru'r Gymraeg yn unig.

Derbyniwyd nifer o ymatebion gan y cyhoedd oedd yn nodi'r angen i bennu safonau a fyddai'n rhoi dyletswyddau ar brifysgolion i gynnig a darparu cyfleoedd i'w myfyrwyr yn Gymraeg (ac i'r di-Gymraeg ddysgu'r iaith yn rhugl), ynghyd â safon a fyddai'n sicrhau bod dyletswydd arnynt mewn perthynas â hyfforddi gweithlu'r dyfodol.

Wrth gyflwyno sylwadau mewn perthynas â Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, nododd un ymatebwr y dylid pennu safon a fyddai'n sicrhau bod cyfran o'r bobl sy'n cael eu penodi i'r Comisiwn yn siaradwyr Gymraeg, a hynny er mwyn adlewyrchu'r hyn a fynegwyd wrth ddiwygio'r gyfraith berthnasol. Derbyniwyd nifer o sylwadau a oedd yn nodi pwysigrwydd pennu safon o'r math hwn ar draws y sefydliadau dan sylw, a hynny er mwyn sicrhau y gall sefydliadau weithredu a chydymffurfio'n llawn â'r gofynion. I'r un perwyl, nododd un ymatebwr y dylid sicrhau bod safon yn cael ei phennu er mwyn gosod dyletswydd ar sefydliadau i gynnig rhaglenni dysgu Gymraeg dwys.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Derbyniwyd rhai sylwadau a oedd o'r farn y dylid eithrio swyddfeydd sefydliadol sydd tu allan i Gymru yng nghyd-destun y safonau gweithredu.

Safonau cadw cofnodion

Derbyniwyd nifer o ymatebion a oedd yn gryf o'r farn y dylai fod sefydliadau yn gorfod cadw cofnodion, a hynny er mwyn sicrhau atebolrwydd a thryloywder cyhoeddus mewn perthynas â chydymffurfio â'r gofynion.

Er hynny, pwysleisiodd rhai ymatebwyr y dylai'r ddyletswydd i gadw cofnodion fod yn gymesur, ac y byddai'n fuddsoddiad gwell i sefydliadau wella ystod ac ansawdd eu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Ategwyd hynny gan nodi bod cyfrifoldeb ar Gomisiynydd y Gymraeg i ddyfarnu ar y cydbwysedd priodol hwnnw.

Undebau myfyrwyr corfforaethau addysg bellach ac uwch

Wrth ymateb i'r ymchwiliad safonau a gynhelir mewn perthynas â chorfforaethau addysg bellach ac uwch, derbyniwyd nifer o sylwadau a oedd yn nodi'r angen i wneud safonau'n gymwysadwy ac yn benodol gymwys i'r undebau myfyrwyr. Pwysleisiodd un ymatebwr y rhan hanfodol bwysig sydd gan undebau myfyrwyr wrth ddarparu gwasanaethau i'r myfyrwyr ar y cyd â'r corfforaethau dan sylw, gan gyfeirio yn benodol at gymorth a chynrychiolaeth academaidd ynghyd â diogelu lles a buddiannau'r myfyrwyr.

Cyfeiriodd yr ymatebwr dan sylw at y dylanwad uniongyrchol a phellgyrhaeddol y caiff yr undebau ar brofiad myfyrwyr, ynghyd â'r ffaith ei fod yn derbyn symiau sylweddol o arian gan y corfforaethau dan sylw. Ategwyd hynny gan nodi bod cynllun iaith Gymraeg presennol un gorfforaeth yn cydnabod y berthynas sydd rhyngddynt hwy â'r undeb, a'r cyfrifoldeb sydd ganddynt i'r perwyl hynny.

Cyflwynwyd nifer o enghreifftiau o undebau myfyrwyr yn gweithredu'n ddwyieithog yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Er hynny, gan ystyried y gofynion ynghlwm â'r rheoliadau drafft, pwysleisiodd un ymatebwr mai tameidiog oedd hynny, ac yn aml wedi llawer o waith pwysu gan fyfyrwyr. Gyda hynny mewn golwg, mynegwyd pryder ynglŷn â'r diffyg cynllunio strategol a chanolog sydd ar gyfer datblygu'r Gymraeg o fewn undebau myfyrwyr, gan beri i'r undebau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

I'r perwyl hwnnw, roedd yr ymatebwr o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod safonau penodol yn cael eu pennu a'u gwneud yn benodol gymwys i gorfforaethau addysg, a hynny er mwyn cydnabod y berthynas hollbwysig â'r undebau, ynghyd â'r ystod o wasanaethau a ddarperir ganddynt i fyfyrwyr ar ran y corfforaethau dan sylw. Aeth yr ymatebwr dan sylw ymlaen i nodi ei fod o'r farn y byddai peidio â phennu safonau o'r math hwn yn golygu na chaiff hawliau ieithyddol myfyrwyr Cymru eu diogelu, ac, o safbwynt y myfyrwyr hynny, mai yn ofer yr aiff unrhyw ymgais i osod safonau ar lefel gorfforaethol.

Atodiad B – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau

Isod ceir rhestr o'r person(au) perthnasol y cynhaliwyd ymchwiliad safonau mewn perthynas â hwy, y Panel Cynghori ynghyd ag aelodau'r cyhoedd a oedd yn fodlon inni gyhoeddi eu sylwadau.

Personau perthnasol

- CAG Cymru
- Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor ar Bopeth
- Gofal Cymru
- Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol
- Hafal
- Leonard Cheshire Disability
- Wallich-Clifford Community

Aelodau'r cyhoedd

- Alun Jones
- Alun Ceri Jones
- Eifion Jones
- Elin Walker Jones
- Eiliw Alwyn
- Selwyn Lloyd-Jones
- Hywel Wyn Jones
- John Arwel Griffiths
- Lloyd Evans
- Anthony Barry
- Sharon Roberts
- Sion Jobbins
- Owen Saer
- Einir Sion
- Sian Gwenllian
- Lisbeth McLean
- Amanda Evans
- Rhys Glyn
- Anthony Barnard
- Anthony Caradog Evans
- Tim Jones
- Yasmin Morris
- Llinos Jones
- Aled Jones
- Dewi Snelson
- Emrys Wynne
- Curon Wyn Davies
- Bethan Harvey
- Mair Edwards

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

- Kathryn
- Helen Thomas
- Geraint Brython Edwards
- Rhodri Williams
- Ruth Evans
- Penri Williams
- Huw Jones
- Emyr Tomos
- Bethan Williams
- Llyr ap Gruffydd
- Robin Farrar
- Robert Jones
- Iago ap Steffan
- Sophie Hughes
- Huw Alun Roberts
- Chris Andrew
- Heledd Gwyndaf
- John Wynn Jones
- Manon James
- Gill Stephen
- Gwyn Williams
- Daron Pierce
- Sian Wyn Jones
- Emma Lloyd
- Neville Evans
- Diane Jones
- Jane Aaron
- Emyr Puw
- Harri Bryn Jones
- Liz Saville Roberts
- Craig ab Iago
- Rhian Davies
- Gwyn Sion Ifan
- Anna Williams
- Dyfan Jones
- Dai Hawkins
- Trefor Jones-Morris
- Dilwyn Morgan
- Y Parch. Emyr Wyn Thomas
- Bryn Davies
- Dr Ceridwen Lloyd Morgan
- Howard Thomas
- Connor
- Lydia Jones
- Rhodri Jones
- Bob Gaffey
- Angharad
- Ruth Williams

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5 (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

- Nic Daniels
- Jeffrey Jones
- Pablo Dubois
- Gareth Wood
- Llinos Roberts
- Bethan Jones
- Sian Mererid Jones
- Duncan Brown
- B Griffiths
- Awen M G Schiavone
- Osian Wyn Owen
- Robin Owain
- Judith Griffith
- Richard John Griffith
- Clive James
- Sion Williams
- Mathew Rees
- Thomas John Davies
- Ben Screen
- Mari Williams
- Enfys Jones
- Thomas Shaw
- Dafydd Thomas
- Angharad Brown
- John Jones
- Iago Sion
- Dafydd Williams
- Ieuan Parry
- Huw Thomas
- William Schleising
- Huw Roberts

Sefydliadau/Mudiadau

- Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
- Dyfodol i'r Iaith
- Mentrau Iaith Cymru
- Swyddog y Gymraeg, Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd a Phwyllgor y Gymdeithas Gymraeg, Prifysgol Caerdydd
- Coleg Gymraeg Cenedlaethol

Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg

- Dr Ian Rees
- Gareth Jones
- Yr Athro Gwynedd Parry
- Bethan Jones Parry
- Carl Cooper